

# Tlodi mewn gwaith yng Ngwynedd

Adroddiad ar gyfer Cyngor Gwynedd

**Mehefin 2018**

**Peter Kenway, Issy Petrie, ac Adam Tinson**

Safbwyntiau'r New Policy Institute yn unig yw'r rheini a fynegir yn yr adroddiad. Ni ddylid ystyried bod unrhyw beth a nodir yn yr adroddiad yn rhan o bolisi Cyngor Gwynedd.

## Tabl cynnwys

1.1. Diffinio a mesur tlodi mewn gwaith	7
1.2. Tlodi mewn gwaith yng Nghymru	8
Tlodi mewn gwaith fel cyfran o gyfanswm y tlodi	9
Oed a math o deulu	9
Statws gwaith a rhesymau dros beidio â gwneud gwaith cyflogedig	10
Deiliadaeth tai	12
1.3. Dadansoddiad a goblygiadau ehangach tlodi mewn gwaith	14
Cyflog isel, dwysedd gwaith a hyd tlodi mewn gwaith	14
Ansefydlogrwydd: tlodi enbyd a dyledion	16
1.4. Crynodeb a chasgliad	17
2.1. Tlodi mewn gwaith ar draws Gwynedd gyfan	18
Credydau treth a budd-dal tai: Gwynedd a Chymru	18
Un amcangyfrif o dlodi mewn gwaith yng Ngwynedd	20
2.2. Amrywiadau o ran tlodi mewn gwaith yng Ngwynedd	21
Amrywiadau o ran y bobl sy'n cael credydau treth mewn gwaith	21
Amrywiadau o ran y bobl sy'n cael budd-dal tai mewn gwaith	26
Cymariaethau ar draws ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf	30
2.3. Crynodeb a chasgliadau	33
3.1. Amcanion a rôl yr awdurdod lleol	34
Amcanion	34
Ffyrdd y gall awdurdod lleol ddylanwadu ar dlodi mewn gwaith	35
3.2. Problemau sy'n wynebu teuluoedd sy'n gweithio ac ar incwm isel yng Ngwynedd	35
Natur dymhorol, sgiliau, cyflog isel a dyledion	36
Trafnidiaeth, gofal plant a gwasanaethau cyhoeddus	37
3.3. Awgrymiadau ar gyfer blaenoriaethau'r awdurdod lleol	38
3.4. Priodweddau ac achosion o dlodi mewn gwaith yng Ngwynedd	41

## Cyflwyniad a chrynodeb

### Pwrpas yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio i helpu Cyngor Gwynedd i ddeall tlodi mewn gwaith yn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ar draws y sir. Mae'n edrych ar bwy mae hyn yn effeithio ac ar yr heriau sy'n wynebu'r bobl sy'n profi hyn. Ar ôl cyflwyno'r ystadegau, mae'r adroddiad yn defnyddio ymchwil ansoddol i gynnig arweiniad ynghylch amcanion y Cyngor wrth iddo ystyried sut mae ymateb a nodi cwestiynau penodol i ganolbwyntio arnynt.

### Tlodi a thlodi mewn gwaith

**Diffiniad o dlodi yw aelwyd lle nad oes digon o adnoddau i ddiwallu anghenion, gan gynnwys cymryd rhan arferol mewn cymdeithas.** Mae hyn yn cael ei fesur yn ôl incwm isel mewn aelwydydd: o dan 60 y cant o'r incwm canolrifol ar ôl addasu ar gyfer maint yr aelwyd.

Mae tlodi mewn gwaith yn cael ei asesu ar lefel uned budd-dal ('teulu'); mae teulu mewn tlodi yn wynebu tlodi mewn gwaith os oes gan o leiaf un aelod waith cyflogedig. **Ystyrir bod pob aelod o'r teulu, gan gynnwys unrhyw blant ac oedolion heb fod yn gweithio, yn wynebu tlodi mewn gwaith. Nid yw hyn yr un fath â chael cyfradd tâl isel yr awr.**

### Nodweddion cyffredinol tlodi mewn gwaith yng Nghymru

Mae 329,000 o bobl yng Nghymru sydd mewn teuluoedd sy'n gweithio mewn tlodi, ac mae hyn yn 48 y cant o gyfanswm y rheini sydd mewn tlodi. Mae dwy ran o dair o'r rhain mewn teuluoedd sy'n gyplau. Mae ychydig dros eu hanner yn denantiaid.

**Mae tlodi mewn gwaith yn gyfuniad o dâl isel yr awr a dwysedd isel o ran gwaith. Mae ymgysylltiad merched â'r farchnad lafur yn hanfodol. Mae rolau lle mae merched yn fwy tebygol o'u cyflawni wedi'u cysylltu'n anghymesur â thlodi mewn gwaith.**

Mae bron i dri chwarter y merched sy'n wynebu tlodi mewn gwaith yn 'tan-weithio'. h.y. ddim yn gwneud gwaith cyflogedig amser llawn.

Teuluoedd sy'n gweithio a chanddynt blant a theuluoedd lle mae merch sengl yn benteulu sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi mewn gwaith. Rhieni a phlant dibynnol yw dwy ran o dair o'r rheini sy'n wynebu tlodi mewn gwaith.

Mae pedair rhan o bump o oedolion heb fod yn gweithio sy'n wynebu tlodi mewn gwaith (heb gynnwys y rheini sy'n brysur yn chwilio am waith) yn nodi mai'r rheswm dros beidio â gweithio yw eu bod yn gofalu am deulu neu am eu bod yn sâl neu'n anabl.

## Tlodi mewn gwaith yng Ngwynedd

***Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sydd mewn tlodi yng Ngwynedd mewn teuluoedd sy'n gweithio.*** Mae lefelau cyffredinol o dlodi yn y sir yn is na chyfartaledd Cymru ond mae teuluoedd sy'n gweithio yn gyfran uwch na'r cyfartaledd. ***Yn 2013/14, roedd 15,100 o bobl mewn teuluoedd sy'n gweithio mewn tlodi yng Ngwynedd, ac mae hyn yn 55.7 y cant o'r holl bobl mewn tlodi yn y sir ac yn 12.4 y cant o'r boblogaeth gyfan.*** Mae gan Wunedd gyfran uwch na Chymru o ran tlodi mewn gwaith oherwydd bod mwy o bobl yn hunangyflogedig ac (i raddau llai) mae mwy o bobl yn rhentu eu cartref.

Yn aml iawn, mae'r adroddiad yn nodi ei ganlyniadau ar gyfer y ddwy etholaeth seneddol. Mae'r gwahaniaethau rhwng Arfon (yr ardal fwy trefol) a Dwyfor Meirionnydd (yr ardal fwy gwledig ac arfordirol) yn dangos patrymau gwrthgyferbyniol tlodi mewn gwaith yng Ngwynedd:

Mae cyfran uwch yn wynebu tlodi mewn gwaith yn Nwyfor Meirionnydd: Mae 13 y cant o aelwydydd yn cael credydau treth mewn gwaith (11 y cant yn Arfon); mae 10 y cant o aelwydydd sy'n rhentu yn cael budd-dal tai mewn gwaith (wyth y cant yn Arfon).

Mae'r rheini sy'n wynebu tlodi mewn gwaith yn Nwyfor Meirionnydd yn hŷn: Mae 30 y cant o'r rheini sy'n hawlio budd-dal tai mewn gwaith o dan 35 oed (44 y cant yn Arfon).

Mae tenantiaid sy'n wynebu tlodi mewn gwaith yn Nwyfor Meirionnydd yn fwy tebygol o fod yn rhentu eiddo preifat (45 y cant o'i gymharu â 28 y cant yn Arfon).

### **Arweiniad ar sut gall y cyngor ymateb i dlodi mewn gwaith**

Mae cefnogi pobl sy'n wynebu tlodi mewn gwaith yn golygu mwy na dim ond eu helpu i ddianc rhagddo. Mae gwerth yn yr hyn sy'n gwella'r sefyllfa tra bo rhywun yn dal yn wynebu tlodi mewn gwaith; mae amser yn bwysig yn ogystal ag arian. Gall teuluoedd sy'n gweithio ac ar incwm isel fod mewn sefyllfa ansicr; mae gwerth mewn atal pethau rhag gwaethygu hefyd.

***Rydym yn argymhell bod y Cyngor yn ystyried dau amcan ar gyfer gweithredu ar dlodi mewn gwaith yng Ngwynedd, sef:***

***Cynyddu adnoddau ariannol ac adnoddau heb fod yn ariannol y teuluoedd sy'n wynebu tlodi mewn gwaith, boed hyn yn rhoi cyfle iddynt ddianc rhag tlodi mewn gwaith neu beidio***

***Diogelu teuluoedd sy'n wynebu tlodi mewn gwaith rhag mynd i sefyllfa o dlodi enbyd, yn sgil dyledion sydd wedi mynd y tu hwnt i bob rheolaeth neu ansefydlogrwydd sy'n deillio o'r system nawdd cymdeithasol.***

## Problemau sy'n wynebu teuluoedd sy'n gweithio ac ar incwm isel yng Ngwynedd

Mewn cyfweiliadau lleol, cafwyd darlun o'r problemau sy'n wynebu teuluoedd sy'n gweithio ac ar incwm isel yng Ngwynedd.

Mae **natur dymhorol y gwaith yng Ngwynedd** yn bryder sy'n codi dro ar ôl tro, yn cynnig swyddi ag isafswm cyflog ac yn rhyngweithio â'r system fudd-daliadau sy'n cyfyngu ar ddewisiadau pobl. Ond mae cyflogwyr yn gweld recriwtio'n lleol ar gyfer yr haf yn her hefyd, yn enwedig pan fydd angen sgiliau penodol. Mae **contractau sy'n cynnig gwaith am 16 awr yr wythnos** i'w gweld yn eang ond nid yw'n glir pam. Mae prinder tai sy'n agos at waith dros yr haf.

**Mae dibynnu ar waith tymhorol yn gallu arwain at ddyledion yn cronni** yn y tymor tawel, gyda'r bwriad o'u had-dalu pan fydd mwy o waith i'w wneud yn yr haf. Efallai bod methu ag ad-dalu dyledion anffurfiol i ffrindiau a theulu yr un mor ddifrifol â methu ag ad-dalu dyledion rhent neu filiau cyfleustodau neu ôl-ddyledion y dreth gyngor.

- **Mae anhawster wrth gyrraedd gwaith yn gryn rwystr** rhag gweithio mwy o oriau neu hyd yn oed weithio o gwbl. Mae hyn yn adlewyrchu pwysau sy'n cynnwys trafndiaeth gyhoeddus ond sy'n fwy na hynny hefyd: y pellteroedd mawr i gyrraedd gwaith; mwy o gyfleoedd mewn trefi mawr; a'r angen i gael gafael ar sawl gwasanaeth arall a/neu ymweld â pherthnasau oedranus neu wael – yn ogystal â mynd a dod i'r gwaith – yn rheolaidd.

## Awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu blaenoriaeth ar gyfer yr Awdurdod Lleol

Dylai'r pryderon lleol bennu ar beth y dylai'r Cyngor ganolbwyntio. Dyma'r pum blaenoriaeth a awgrymir:

**Deall pam mae contractau 16-awr mor gyffredin – ac mor boblogaidd yn ôl yr hyn a welwyd.** Pe byddai pobl sy'n gweithio 16 awr yr wythnos yn gallu gweithio ychydig yn fwy bob diwrnod, byddent ar eu hennill yn sylweddol.

**Yn unol â nod Gwynedd i ganolbwyntio ar swyddi gwerth uchel, hyfforddi gweithwyr lleol mewn sgiliau arbenigol (fel arlwy) y mae cyflogwyr tymhorol yn ei chael yn anoddach llenwi'r swyddi hyn.**

**Canolbwyntio ar uwchsgilio'r rheini sy'n dychwelyd i weithio, fel arfer merched, ar ôl cyfnod o'r gwaith.** Mae hyn yn allweddol i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith ymysg pobl hŷn o oedran gweithio.

**Adolygu pa mor hwylus yw cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a ddefnyddir gan deuluoedd sy'n gweithio ac ar incwm isel e.e. oriau agor,**

agosrwydd, pa mor rhwydd yw gwneud/newid apwyntiadau, pa mor addas yw gwasanaethau digidol ac ati. Y nod yw ei gwneud yn haws i aelodau teuluoedd wneud gwaith cyflogedig neu ymestyn eu horiau gweithio.

***Hyrwyddo cyngor am ddyledion ac adolygu polisiau ar gasglu dyledion.*** Fel arfer, i'r cyngor, cymdeithasau tai, yr Adran Gwaith a Phensiynau a chwmnïau cyfleustodau y mae teuluoedd ar incwm isel yn ddyledus iddynt.

Mewn termau gofodol, rydym yn awgrymu bod y Cyngor yn edrych ar y 'mannau problemus' lle gwelir tlodi mewn gwaith (yn bennaf yn yr ardaloedd ôl-ddiwydiannol, ardaloedd trefol ac arfordirol) a'r ardaloedd gwledig yn gyffredinol gyda'u lefel 'cefnidir' uchel o dlodi mewn gwaith. Er bod y pum blaenoriaeth yn berthnasol ar draws Gwynedd, byddai ardaloedd gwledig ac ardaloedd arfordirol yn elwa'n arbennig o gael gwell mynediad – blaenoriaeth 4. Byddai ardaloedd trefol a threfi marchnad yn elwa llawer o flaenoriaeth 2, sydd wedi'i hanelu at weithwyr ifanc a phobl ifanc sy'n gadael ysgol. Mae blaenoriaeth 3 yn rhan o'r agenda ehangach ar ail-sgilio ac mae'n arbennig o berthnasol i ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol.

# 1. Tlodi mewn gwaith

## 1.1. Diffinio a mesur tlodi mewn gwaith

Diffiniad o **dlodi** yn y DU yw aelwyd lle nad oes digon o adnoddau i ddiwallu anghenion, gan gynnwys cymryd rhan arferol mewn cymdeithas.<sup>1</sup> Mae hyn yn cael ei fesur fel arfer yn ôl incwm isel mewn aelwydydd: o dan 60 y cant o'r incwm canolrifol ar ôl addasu ar gyfer maint yr aelwyd.

Mae sawl pwynt i'w egluro yma.

- Mae **incwm** yn cynnwys enillion yn ogystal incwm budd-daliadau, gan gynnwys budd-dal tai ac elfen gofal plant credydau treth a chredyd cynhwysol. Mae'n swm net wedi'i fesur o dreth incwm, yswiriant gwladol a'r dreth gyngor (mae hyn ynddo'i hun yn swm net unrhyw ostyngiad yn y dreth gyngor). Ystyr 'aelwyd' yn gyffredin yw pawb sy'n byw y tu ôl i un drws ffrynt.
- Yn yr adroddiad hwn, rydym yn dilyn y confensiwn cyffredinol o ddefnyddio incwm **ar ôl i'r costau tai** gael eu tynnu. Mae diffiniad o gost tai wedi'i gyfyngu i rent, llog morgais, costau dŵr ac (i berchen-feddianwyr) yswiriant adeilad. Mae hon yn ymdriniaeth fanwl o'r effaith ar berchen-feddianwyr. Yn benodol, mae peidio cynnwys yr egwyddor ad-dalu morgais yn golygu bod **incwm gwario** aelwydydd sydd â morgais yn is na'r mesur hwn o incwm. Mae hyn yn arbennig o wir yn y blynyddoedd diwethaf o ad-dalu morgais ac mae angen cofio am hyn wrth ystyried tlodi mewn gwaith ymysg aelwydydd perchen-feddianwyr hŷn sydd o oedran gweithio.
- Er bod incwm yn cael ei fesur ar lefel aelwydydd, mae ein dadansoddiad ni o dlodi – boed hynny'n dlodi mewn gwaith neu dlodi heb fod mewn gwaith ac os yr un cyntaf sy'n berthnasol, statws gwaith yr oedolion unigol – yn digwydd ar lefel uned **budd-dal**. Term gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yw hwn sy'n dynodi grwpio pobl sy'n cael ei ystyried yn un o'r dibenion dros gyfrifo hawl i gael budd-dal. Gall fod yn oedolyn sengl neu'n oedolyn a'i bartner os ydynt yn cyd-fyw, yn ogystal ag unrhyw blant dibynnol sy'n byw gyda nhw. Mae plentyn sydd wedi gadael addysg ffurfiol, rhieni un o'r oedolion yn yr uned budd-dal neu oedolion eraill sy'n byw gyda nhw yn perthyn i'r un aelwyd ond yn cael eu cyfrif fel unedau budd-dal ar wahân. Pan fyddwn ni'n cyfeirio at 'teulu', rydym ni'n ei ddefnyddio fel enw arall sydd ddim yn dechnegol ar gyfer 'uned budd-dal'.
- Mae tlodi mewn gwaith yn cael ei asesu ar lefel uned budd-dal ('teulu'); mae teulu yn wynebu tlodi mewn gwaith os oes gan o leiaf un aelod waith

<sup>1</sup> Sefydliad Joseph Rowntree (2016a)

cyflogedig. Ystyrir bod pob aelod o'r teulu, gan gynnwys plant ac oedolion heb fod yn gweithio, yn wynebu tlodi mewn gwaith. Nid yw wynebu tlodi mewn gwaith yr un fath â chael cyflog isel, h.y. tâl isel yr awr.<sup>2</sup>

Mae'r trothwyon incwm a ddefnyddir i gyfrif nifer y bobl mewn tlodi fel a ganlyn: Maent yn cyfeirio at incwm wythnosol aelwyd, ar gyfer 2015/16 (y dyddiad y mae'r rhan fwyaf o'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn cyfateb iddo), swm net trethi incwm a'r dreth gyngor, ac mae'r rhain ar ôl tynnu'r costau tai. Y trothwyon hyn ar ôl tynnu costau tai yw'r rheini a ddefnyddir ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

- Oedolyn sengl, oed gweithio neu bensynwr: £144 yr wythnos
- Cwpl, oed gweithio neu bensynwr: £248 yr wythnos
- Unig riant, un plentyn o dan 14 oed: £193 yr wythnos
- Cwpl â dau blentyn o dan 14 oed: £347 yr wythnos

Mae'r amrywiol drothwyon yn adlewyrchu'r ffaith bod angen mwy o incwm ar aelwydydd mawr i gynnal yr un safon byw. Ni ystyrir bod aelwydydd sydd ag incwm sy'n fwy na'r trothwyon hyn mewn tlodi. Mae gan nifer o aelwydydd mewn tlodi incwm sy'n is o lawer na'r trothwy. Mae'r trothwyon, ar y cyfan, yn is na'r hyn y mae prosiect *Safon Isafswm Incwm* wedi'i ganfod sef yr hyn mae'r cyhoedd yn ei ystyried yn isafswm incwm sydd ei angen i fyw bywyd sy'n dderbyniol yn gymdeithasol.

## 1.2. Tlodi mewn gwaith yng Nghymru

Mae'r adran hon yn edrych ar grŵp o bobl sydd, yn ôl yr ystadegau, yn wynebu tlodi mewn gwaith i weld sut maent yn wahanol i'w gilydd gan ddefnyddio amrywiol nodweddion fel oed, rhyw neu statws gwaith y teulu. Wrth edrych ar y data yn y modd hwn, mae'n bwrw goleuni ynghylch a yw is-grwpiau penodol, er enghraifft, oedolion iau o oedran gweithio, yn *gyfran* fawr o'r rheini sy'n wynebu tlodi mewn gwaith. Mae'r darlun a gawn yn rhyw fath o restr wirio i'w defnyddio i edrych ar ba mor gyflawn yw polisïau ac arferion.

Y rhan fwyaf o'r amser, mae'r dadansoddiad hwn yn defnyddio data ar lefel Cymru gyfan. Y data manwl diweddaraf ar gyfer Gymru sy'n cynnwys ystadegau lefel aelwydydd yw data 2015/16. Ar y llaw arall, mae ein dadansoddiad o unigolion yn dibynnu ar ddata o hyd at 2014/15.

<sup>2</sup> Am y tair blynedd rhwng 2012-13 a 2014-15, roedd gan 25 y cant o aelwydydd yng Nghymru fwy nag un uned budd-dal (o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 27 y cant). Ar wahanol bwyntiau yn yr adroddiad, byddwn yn nodi pa wahaniaeth mae hyn yn ei wneud i'r ystadegau os yw statws gwaith yn cael ei fesur ar lefel yr aelwyd yn hytrach nag ar lefel yr uned budd-dal.




## Tlodi mewn gwaith fel cyfran o gyfanswm y tlodi

Yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd ar gael, mae 330,000 o bobl yn wynebu tlodi mewn gwaith yng Nghymru: 48 y cant o gyfanswm y bobl mewn tlodi yng Nghymru. Mae'r ganran hon gwpl o bwyntiau yn is na'r ganran yn y tair blynedd hyd at 2012/13 ond yn dal i fod saith pwynt yn uwch na'r hyn oedd yn y tair blynedd hyd at 2008/09. O'r cyfanswm hwnnw, mae 108,000 yn blant, 7,000 yn bensiynwyr ac mae 214,000 yn oedolion o oedran gweithio. Mae'n bosib bod y pensiynwyr yn gweithio neu ddim yn gweithio eu hunain (er os nad ydynt, bydd eu partneriaid yn gweithio), ond nid yw'r plant yn gweithio o gwbl. Mae hyn yn dangos pwynt pwysig: nid yw pawb sy'n wynebu tlodi mewn gwaith yn gweithio eu hunain. Mae hyn yn berthnasol hefyd i rai o'r oedolion o oedran gweithio.

## Oed a math o deulu

Mae ffigur 1 yn dangos y 330,000 yn ôl eu math o deulu: nifer yr oedolion, a oes ganddynt blant ac a ydynt yn bensiynwyr. Mae dros ddwy ran o dair (67 y cant) o'r bobl mewn teuluoedd sy'n wynebu tlodi mewn gwaith yn deuluoedd a chanddynt blant: mae 52 y cant yn gyplau a chanddynt blant ac mae 15 y cant arall yn deuluoedd riant sengl.

*Ffigur 1: nifer y bobl sy'n wynebu tlodi mewn gwaith yn ôl y math o deulu*



Ffynhonnell: data HBAI gan ddefnyddio'r tair blynedd hyd at 2015/16

Mae dros ddwy ran o dair (67 y cant) o'r bobl yn gyplau – naill ai gyda phlant neu heb blant. Ond yn achos bron i hanner y teuluoedd i gyd, oedolyn sengl sy'n benteulu.

Oedolion mewn teuluoedd heb blant yw ychydig o dan draean o'r bobl sy'n wynebu tlodi mewn gwaith. Mae oedolion mewn cyplau heb blant yn 17 y cant o'r bobl sy'n wynebu tlodi mewn gwaith, ac mae oedolion sengl heb blant yn 15 y cant.

O'r 214,000 o oedolion o oedran gweithio, mae 29 y cant rhwng 36 a 45 oed – y grŵp oedran deg-mlynedd mwyaf. Mae dros hanner (52 y cant) rhwng 36 a 55 oed ac mae bron i dri chwarter (71 y cant) rhwng 26 a 55 oed. Yn groes i'r hyn a dybir, nid oedolion ifanc sy'n cychwyn arni nac oedolion hŷn sy'n dod i ddiwedd eu bywydau gwaith yw'r rhan fwyaf o'r oedolion sy'n wynebu tlodi mewn gwaith.

## Statws gwaith a rhesymau dros beidio â gwneud gwaith cyflogedig


Wrth ddadansoddi'r 330,000 yn ôl statws gwaith y *teulu*, mae tri o'r pedwar grŵp tua'r un faint (26 y cant) tra bo'r pedwerydd (22 y cant) ychydig yn llai. Dyma'r pedwar grŵp:

- Cyplau lle mae un oedolyn yn gweithio'n llawn amser a'r oedolyn arall ddim yn gweithio.
- Cyplau neu bobl sengl lle mae un (neu fwy) yn gweithio ond neb yn gweithio'n llawn amser;
- Cyplau neu bobl sengl lle mae pawb yn gweithio gan gynnwys o leiaf un yn llawn amser;
- Cyplau neu bobl sengl lle mae rhywun yn hunangyflogedig.

O'r pedwar, dim ond y trydydd grŵp yn ogystal â rhai o'r pedwerydd y gellir ystyried eu bod yn gweithio hyd eithaf eu gallu. Mae'r rhan fwyaf o dlodi mewn gwaith felly yn cael ei gysylltu â'r hyn a alwn yn deuluoedd sy'n 'gweithio'n rhan-amser' (y grŵp cyntaf a'r ail grŵp ac ychydig o'r pedwerydd).

Mae ffigur 2 yn dangos yr oedolion o oedran gweithio sy'n wynebu tlodi mewn gwaith, wedi'u rhannu yn ôl rhyw, ac a ydynt yn gweithio'n rhan-amser neu amser llawn neu'n hunangyflogedig. Roedd nifer y merched, sef 120,000 – 54 y cant o'r cyfanswm – dros 17,000 yn fwy na'r dynion.

**Ffigur 2: nifer y merched a'r dynion sy'n wynebu tlodi mewn gwaith yn ôl statws gwaith unigolion**




Ffynhonnell: data HBAI gan ddefnyddio'r tair blynedd hyd at 2014/15

Ymhlith y rheini sy'n gweithio – mewn gwaith rhan-amser neu amser llawn neu'n hunangyflogedig – mae nifer y merched a'r dynion bron yr un faint (39 y cant). Gan roi'r bobl hunangyflogedig o'r neilltu gan nad yw eu horiau gwaith yn bendant, mae 7 o bob 10 dynes sy'n wynebu tlodi mewn gwaith yn 'tan-gyflogedig' (hynny yw, nid ydynt yn gwneud cymaint o waith cyflogedig ag y gallent pe byddai'r cyfle'n codi a phe byddai'r cyfyngiadau ar eu horiau o waith cyflogedig yn cael eu codi). Ar y llaw arall, y ffigur ar gyfer dynion yw tua 4 o bob deg.

Mae rhesymau da dros 'tan-weithio' – a byddwn ni'n edrych ar hyn nesaf – ond mae'n amlwg bod merched sy'n tan-weithio yn nodwedd gyffredin iawn o dlodi mewn gwaith. Mae'r ffocws hwn ar ferched yn cael ei atgyfnerthu gan y canlyniad mwy cyffredinol yma, sef bod gogwydd bach ond amlwg o ran y rhywiau wrth edrych ar dlodi mewn gwaith: mae hyn yn effeithio ar fwy o ferched.

Mae ffigur 3 yn dangos y 22 y cant o oedolion sy'n wynebu tlodi mewn gwaith ac nad ydynt eu hunain mewn gwaith cyflogedig, yn ôl y rheswm maent yn ei roi am beidio â gweithio.

**Ffigur 3: nifer y merched a'r dynion sy'n wynebu tlodi mewn gwaith, yn ôl y rheswm am beidio â gweithio**



Ffynhonnell: data HBAI gan ddefnyddio'r tair blynedd hyd at 2014/15


Y grŵp mwyaf yw oedolion sy'n methu â gweithio oherwydd bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu am y cartref neu'r teulu – mae'r rhain yn cyfri am 29 y cant o'r oedolion heb fod yn gweithio sy'n wynebu tlodi mewn gwaith. Mae chwarter arall yn ddi-waith, sy'n golygu nad ydynt yn gweithio ar hyn o bryd ond eu bod ar gael i weithio. Mae chwarter arall yn sâl neu'n anabl

## Deiliadaeth tai

Mae ffigur 4 yn dangos lle mae teuluoedd o oedran gweithio sy'n wynebu tlodi yn byw, yn ôl a ydynt yn byw mewn aelwyd sydd mewn gwaith neu aelwyd heb waith.

Y gwahaniaeth mwyaf trawiadol rhwng y ddau grŵp hyn yw'r gyfran uchel o oedolion mewn aelwydydd heb waith sy'n byw yn y sector rhentu cymdeithasol: 43 y cant. Ar y llaw arall, dim ond 21 y cant o oedolion sydd mewn teuluoedd sy'n gweithio sy'n byw mewn cartref rhent cymdeithasol. Mae oddeutu traean o bob grŵp yn byw yn y sector rhentu preifat.

**Ffigur 4: Cyfran yr oedolion o oedran gweithio mewn flodi yn ôl deiliadaeth tai**



Ffynhonnell: data HBAI gan ddefnyddio'r tair blynedd hyd at 2015/16

Mae 28 y cant o oedolion sydd mewn teuluoedd sy'n gweithio yn byw mewn cartref sydd â morgais. Y ffigur ar gyfer oedolion mewn teuluoedd heb fod mewn gwaith yw 7 y cant. Fodd bynnag, mae oedolion mewn teuluoedd heb fod mewn gwaith yn fwy tebygol hefyd o fod yn byw mewn cartref sy'n eiddo llwyr – 20 y cant, o'i gymharu â 16 y cant o oedolion mewn aelwydydd mewn gwaith. Mae 43 y cant o oedolion mewn teuluoedd sy'n gweithio yn berchen ar eu heiddo eu hunain neu'n talu morgais; y ffigur gyda'i gilydd ar gyfer oedolion mewn teuluoedd heb fod mewn gwaith yw 27 y cant.

Os ydym yn ystyried ansefydlogrwydd cymharol y mathau gwahanol hyn o dai – a bod tai cymdeithasol a pherchen ar gartref yn llwyr yn fwy sefydlog na rhentu yn y sector rhent preifat neu dalu morgais, mae cyfran uwch o lawer o oedolion mewn aelwydydd heb fod mewn gwaith yn byw mewn deiliadaeth fwy diogel.

Mae 63 y cant o oedolion mewn teuluoedd heb fod mewn gwaith yn byw mewn tai cymdeithasol neu'n berchen ar eu cartref eu hunain yn barod. I oedolion mewn teuluoedd sy'n gweithio, mae hyn yn ychydig o dan 37 y cant.

### 1.3. Dadansoddiad a goblygiadau ehangach tlodi mewn gwaith

Yn yr adran hon, byddwn yn edrych yn gryno ar ganfyddiadau mathau eraill o ymchwil ar dlodi mewn gwaith.

#### Cyflog isel, dwysedd gwaith a hyd tlodi mewn gwaith<sup>3</sup>

Er bod cysylltiad rhwng cyflog isel a thlodi mewn gwaith, nid ydynt yr un fath. Mae cyflog isel yn cynyddu'r risg o dlodi ond mae'r berthynas yn gymhleth. Mae rhywun sy'n cael enillion cyfartalog fesul awr yn dal i allu fod mewn tlodi. Mae rhywun arall sydd ar yr isafswm cyflog yn gallu peidio â bod mewn tlodi. Efallai na fydd cynnydd bach yn enillion unigolyn sy'n cael cyflog isel (os nhw yw'r unig un sy'n ennill cyflog mewn aelwyd â phlant) yn ddigon i'w tynnu o'r tlodi.


Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn y DU sy'n cael cyflog isel yr awr mewn tlodi: maent naill ai'n gweithio digon o oriau fel teulu neu fod ganddynt rywun arall yn y teulu sy'n ennill digon i symud cyfanswm yr incwm dros y ffin tlodi. Os bydd y nawdd cymdeithasol yn cynyddu incwm eu haelwyd yn ddigonol, byddant yn cael eu diogelu rhag wynebu tlodi.

Yn hytrach na chyflog isel yr awr, mae rhai'n dadlau mai dwysedd y gwaith yw'r prif ffactor sy'n rhoi pobl mewn risg o wynebu tlodi. Mae ffigur 5 yn dangos sut mae risgiau tlodi mewn gwaith yn amrywio yn ôl y math o deulu.

---

<sup>3</sup> Yn yr adran hon, byddwn yn defnyddio gwaith Hick a Lanau (2017), Marx a Nolan (2012) a (McKnight et al 2016), yn ogystal â'n dadansoddiad ein hunain.

**Ffigur 5: pobl mewn teuluoedd sy'n gweithio sy'n wynebu tlodi mewn gwaith, yn ôl y math o deulu**



Ffynhonnell: data HBAI gan ddefnyddio'r tair blynedd hyd at 2015/16

Teuluoedd unig rieni sy'n wynebu'r risg fwyaf o bell ffordd: 32 y cant. Wedyn, cyplau sy'n gweithio a chanddynt blant (19 y cant) a theuluoedd â dynes sengl yn benteulu (16 y cant). Nid yw'n syndod bod cyflog isel yr awr a dwysedd gwaith isel gyda'i gilydd yn golygu mai teuluoedd sydd ag un enillydd cyflog (merch), gyda phlant dibynnol neu heb blant dibynnol, yn ogystal â chyplau gyda phlant sydd â'r risg fwyaf o wynebu tlodi mewn gwaith.

Mae wynebu tlodi mewn gwaith a dod o'r sefyllfa honno yn fwy cyffredin na wynebu tlodi yn gyffredinol a dod o'r sefyllfa honno. Aelwydydd lle mae un enillydd cyflog sydd â'r risg fwyaf o wynebu tlodi mewn gwaith. Gall teuluoedd sy'n wynebu tlodi mewn gwaith ddianc naill ai drwy gynyddu eu hincwm a dod o'r sefyllfa o dlodi yn llwyr, neu drwy adael gwaith ac wynebu tlodi heb fod mewn gwaith.

Mae dros hanner y teuluoedd a oedd yn wynebu tlodi mewn gwaith un flwyddyn wedi dod o'r sefyllfa honno erbyn y flwyddyn ganlynol. Roedd y rhan fwyaf wedi dod o'r sefyllfa drwy gynyddu eu henillion. Mae pobl sy'n wynebu tlodi mewn gwaith dair gwaith yn fwy tebygol o fynd i sefyllfa o fod heb waith nag aelwydydd sy'n gweithio ond ddim yn wynebu tlodi mewn gwaith, ac mae hyn yn awgrymu ymlyniad gwan â'r farchnad lafur. Llai o enillion oedd y rheswm pam mae'r rhan fwyaf yn wynebu tlodi

mewn gwaith, naill ai oherwydd bod aelwyd wedi colli enillydd cyflog, neu fod yr enillydd cyflog yn gweithio llai o oriau neu'n cael llai o gyflog yr awr.

I'r aelwydydd heb fod mewn gwaith sy'n dechrau gweithio, ni fydd chwarter ohonynt yn dianc rhag tlodi ond, yn hytrach, yn wynebu tlodi mewn gwaith. Llwyddodd Ray et al. (2010) i ddod o hyd i grŵp o weithwyr oedd yn cael cyflog isel i ddeall y rhyngweithio rhwng bywyd teuluol, gwaith a bod heb waith. Yr hyn a welsant oedd nad yw mynediad at waith a chynnydd yn arwain at lwybr syml bob amser. I bobl a oedd yn cael gwaith dros dro neu gyfnodau toredig o waith dro ar ôl tro, roedd cynyddu lefelau cyflog yn ddigonol i ddod o'r tlodi yn anoddach. Byddai'r incwm o gyfnodau o weithio yn gallu cael ei ddefnyddio i dalu dyledion a oedd wedi cronni mewn cyfnodau o fod yn ddi-waith, ac roedd amgylchiadau a oedd yn newid yn aml yn effeithio ar daliadau budd-daliadau.

### Ansefydlogrwydd: tlodi enbyd a dyledion<sup>4</sup>

Wrth ymchwilio i'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â thlodi enbyd (ffurf eithafol o dlodi wedi'i diffinio fel ddim yn gallu bodloni anghenion hanfodol fel bwyd, cysgod neu ddillad), roedd bod mewn gwaith ond yn cael cyflog isel wedi'i nodi fel ffactor a oedd yn amharu ar allu pobl i ddiwallu eu hanghenion bob dydd, ac yn golygu bod ganddynt lawer llai o allu i wrthsefyll unrhyw sioc gydag incwm neu dalu costau annisgwyl. Roedd lefelau cyflog rhy isel i ganiatáu i bobl gynilo wedi'u nodi fel un o'r ffactorau parhaol tymor hir dros dlodi enbyd, a hyn yn golygu nad ydynt yn ddigon cryf i ddelio ag unrhyw sioc ariannol annisgwyl.

Yn ogystal â lefelau cyflogau, roedd trefniadau gwaith ansicr fel peidio â chael oriau gwaith wedi'u gwarantu (drwy gontractau dim oriau, contractau dros dro neu hunangyflogaeth) yn gysylltiedig â mwy o risg o dlodi enbyd. Mae cael incwm sy'n amrywiol iawn yn effeithio ar allu pobl i gyllidebu ar gyfer alldaliadau mae modd eu rhagweld a chynilo ar gyfer alldaliadau annisgwyl. Mae hyn yn golygu nad yw pobl yn gallu talu am eu costau byw ac yn gorfod troi at fanciau bwyd neu at ddulliau eraill o gefnogaeth mewn argyfwng. Mae adroddiad Cyngor ar Bopeth yn cyfeirio at y nifer fawr o bobl sydd mewn sefyllfa lle mae'n anodd rhagweld yr incwm a heb fod mewn sefyllfa ariannol ddigon cadarn i bontio'r bwloch eu hunain.

Mae aelwydydd lle mae'r incwm yn ansefydlog yn troi at fenthyca yn aml iawn er mwyn prynu hanfodion, ac yn defnyddio gorddrafft i dalu am fwyd, biliau neu gostau tai, neu gymryd benthyciad i brynu nwyddau na ellir ei hosgoi fel nwyddau gwyn. Roedd 25 y cant o bobl a oedd mewn sefyllfa lle roedd yn anodd rhagweld yr incwm wedi defnyddio gorddrafft i dalu am hanfodion (mae'r ffigur hwn yn 10 y cant ar gyfer pobl sydd ag incwm sefydlog). Maent ddwywaith yn fwy tebygol na phobl ag incwm

<sup>4</sup> Yn yr adran hon, byddwn yn defnyddio gwaith Barker et al (2018) a Hardy a Lane (2017).



sy'n haws ei ragweld i dalu costau gorddrafft. Mae pobl sydd ag incwm ansefydlog bum gwaith yn fwy tebygol na phobl ag incwm sefydlog i ddefnyddio credyd cost uchel.

Mae ymchwil wedi tynnu sylw at y ffaith nad diffyg ymdrech sy'n gyfrifol am anallu pobl i dalu costau byw; yn hytrach mae'n gydadwaith cymhleth rhwng incwm amrywiol a chostau yn cynyddu.

## 1.4. Crynodeb a chasgliad

Mae ein tystiolaeth yn gyson â chanfyddiadau gwaith ymchwil ehangach bod tlodi mewn gwaith yn gyfuniad o dâl isel fesul awr a dwysedd isel o ran gwaith. Ond mae'n ymhelaethu mwy, mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae ymgysylltiad merched â'r farchnad lafur – sef gwaith y telir amdano – yn hanfodol. Yn benodol:

- Mae mwy o ferched na dynion yn wynebu tlodi mewn gwaith (ffigur 4).
- Mae bron i dri chwarter y merched sy'n wynebu tlodi mewn gwaith yn 'tanweithio' (ddim yn gwneud gwaith cyflogedig amser llawn – ffigur 4).
- Teuluoedd sy'n gweithio, y rheini a chanddynt blant a theuluoedd lle mae merch sengl yn benteulu (gyda phlant dibynnol neu heb blant dibynnol) sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi mewn gwaith (ffigur 7).

Yn ail, mae'r rolau lle mae merched yn fwy tebygol o hyd o'u cyflawni wedi'u cysylltu'n anghymesur â thlodi mewn gwaith.

- Mae dwy ran o dair o bobl mewn teuluoedd sy'n wynebu tlodi mewn gwaith yn rhieni a chanddynt blant dibynnol (ffigur 2).
- Y rheswm a roddir dros beidio â gweithio gan bedair rhan o bump o oedolion heb fod yn gweithio sy'n wynebu tlodi mewn gwaith (heb gynnwys y rheini sy'n brysur yn chwilio am waith) yw eu bod yn gofalu am deulu neu eu bod yn sâl neu'n anabl (ffigur 5).

## 2. Tlodi mewn gwaith yng Ngwynedd

Dim ond ar lefel Cymru yr adroddir am yr ystadegau swyddogol ar dlodi mewn gwaith a drafodwyd ym mhennod 1. Mae edrych ar dlodi mewn gwaith mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd eraill yng Ngwynedd yn gofyn am ddull gwahanol. Mae'r bennod hon yn defnyddio data gweinyddol am y sawl sy'n cael budd-dal tai a chredydau treth, yn ogystal ag amcangyfrif o'r tlodi yn seiliedig ar y cyfrifiad, i wneud hynny.

### 2.1. Tlodi mewn gwaith ar draws Gwynedd gyfan

Mae ymchwil flaenorol wedi defnyddio ystadegau gweinyddol am y sawl sy'n cael budd-daliadau fel mesurau procsi am batrymau mewn tlodi. Os yw nodwedd yn fwy amlwg mewn awdurdod lleol nad ydyw mewn ardal gyfeirio, rydym yn tybio bod hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yng nghyfansoddiad y boblogaeth sydd mewn tlodi yn yr ardal honno. Er enghraifft, mewn gwaith ymchwil ar gyfer Comisiwn Tlodi a Diweithdra Ardal Hammersmith a Fulham, daethpwyd i'r casgliad gan fod y bobl sy'n hawlio budd-dal tai yn y fwrdeistref yn fwy tebygol o fod yn rhentu tai cymdeithasol a heb fod mewn gwaith cyflogedig na phobl sy'n hawlio budd-dal tai yn Llundain gyfan, y byddai hyn yn debygol o gael ei adlewyrchu yn natur y tlodi a wynebair yn yr ardal.


Mae gan y dull hwn ei gyfyngiadau: er enghraifft, mae'n bosib y bydd gwahaniaethau systematig o ran pwy sydd neu bwy sydd ddim yn hawlio budd-dal penodol rhwng ardal a rhanbarth cyfeirio, a gallai hyn ystumio'r canfyddiadau. Mae cyfyngiadau hefyd o ran pwy sy'n gallu cael y gwahanol fudd-daliadau sydd ar gael, e.e. nid oes modd i berchen-feddianwyr hawlio budd-dal tai.

### Credydau treth a budd-dal tai: Gwynedd a Chymru

Mae dwy ffordd bosib o ymchwilio i dlodi mewn gwaith yng Ngwynedd. Y ffordd gyntaf yw gweld a yw'r tlodi mewn gwaith fel cyfran o boblogaeth gyfan Gwynedd yn gymharol uchel. Yr ail ffordd yw gweld a yw'r tlodi mewn gwaith yn gyfran gymharol uchel o'r tlodi yn gyffredinol. Mae'n bosib i ardal fod, er enghraifft, â chyfradd tlodi isel yn gyffredinol, ond bod tlodi mewn gwaith yn gyfran uchel o'r ffigur hwnnw.

Mae ffigur 6 yn edrych ar hyn gan ddefnyddio ystadegau credydau treth. Mae'r echelin ar yr ochr chwith yn dangos cyfran yr aelwydydd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cael credydau treth mewn gwaith. Mae'r echelin ar yr ochr dde yn dangos cyfran y teuluoedd sy'n cael credydau treth ac sydd mewn gwaith.

**Ffigur 6: Risg a nifer y bobl sy'n cael credydau treth mewn gwaith**




Ffynhonnell: Credydau treth personol: ystadegau terfynol o'r hyn sydd wedi'i ddyfarnu - data ardal fach (LSOA a Pharth Data) 2015 i 2016, CThEM; Amcangyfrif canol-blwyddyn bach o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Yn 2015/16, roedd 11.5 y cant o deuluoedd yng Ngwynedd yn cael cymorth drwy greydau treth mewn gwaith. Mae hyn bron yr un fath â chyfartaledd Cymru o 11.4 y cant, sy'n awgrymu bod lefel y tlodi mewn gwaith ar y sail hon yn agos hefyd i'r cyfartaledd cenedlaethol. Gyda'r mesur hyn, mae Gwynedd yn safle 15 o blith 22 awdurdod, er bod gan lawer ffigur tebyg iawn. Yr hyn sy'n gwneud Gwynedd yn wahanol yw bod 78 y cant o'r bobl sy'n cael credydau treth mewn teuluoedd sy'n gweithio. Dyma'r ail gyfran uchaf yng Nghymru ar ôl Powys sydd â daearyddiaeth debyg i Wynedd, ac eithrio'r arfordir.

Mae hyn yn cael ei adleisio yn ffigur 7, sy'n dangos y rheini o oedran gweithio sy'n cael budd-dal tai, er nad yw'r patrwm cyn gryfed yng Ngwynedd. Roedd naw y cant o bobl o oedran gweithio sy'n rhentu yng Ngwynedd yn cael budd-dal tai wrth weithio, yr ail gyfran isaf yng Nghymru. Mae cyfran y bobl sy'n hawlio budd-dal tai sydd mewn teuluoedd sy'n gweithio yn gymharol uwch na hyn, ar 23 y cant, yr 11<sup>eg</sup> ffigur uchaf yng Nghymru. Gyda'r mesur hyn eto, mae'r risg o dlodi mewn gwaith yn gymharol isel yng Ngwynedd, ond ymysg y bobl sydd mewn tlodi, maent yn fwy tebygol o fod mewn gwaith nag unman arall. Mae hyn yn arwain at oblygiadau o ran y flaenoriaeth berthynol o leihau tlodi mewn gwaith yn erbyn lleihau tlodi heb fod mewn gwaith yn y sir o'i gymharu â sawl awdurdod arall yng Nghymru.

**Ffigur 7: Risg a nifer y bobl sy'n cael budd-dal tai**



Ffynhonnell: Ystadegau Budd-dal Tai drwy Stat Xplore, Tachwedd 2017, Yr Adran Gwaith a Phensiynau; Amcangyfrif canol-blwyddyn bach o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Un amcangyfrif o dlodi mewn gwaith yng Ngwynedd

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhoi amcangyfrifon o'r tlodi cyffredinol (waeth beth yw'r statws o ran gwaith) yn yr ardal gynnyrch ehangach haen ganol, tua 7,500 o bobl. Wrth gydgrynhoi, mae'n rhoi cyfradd tlodi gyffredinol yng Ngwynedd o 22.3 y cant, sy'n 27,200 o bobl yn 2013/14. Mae hyn yn golygu mai Gwynedd yw'r awdurdod lleol canolig o ran tlodi yng Nghymru (11eg allan o 22) gyda chyfradd tlodi un pwynt canran yn is na chyfartaledd Cymru gyfan.

Pe byddai Gwynedd yn debyg i weddill Cymru o ran tlodi mewn gwaith, byddem yn disgwyl bod 49 y cant o'r bobl hyn mewn teulu sy'n gweithio: 13,300. Ond mae Gwynedd yn edrych yn wahanol i weddill Cymru mewn sawl ffordd. Yn seiliedig ar y Cyfrifiad, mae mwy o bobl yn rhentu yng Ngwynedd na'r cyfartaledd yng Nghymru (30 y cant o aelwydydd, o'i gymharu â 26 y cant). Hefyd, mae ganddo fwy o weithwyr hunangyflogedig (23 y cant o aelwydydd, o'i gymharu â 16 y cant). Mae'r ddwy elfen hyn yn gysylltiedig â chyfradd uwch o dlodi mewn gwaith.

Wrth ddefnyddio cyfran o'r nodweddion hyn o'r Cyfrifiad a chyfran o'r nodweddion hyn mewn tlodi ar gyfer Cymru, cawn amcangyfrif o 55.7 y cant o bobl mewn tlodi yng Ngwynedd mewn teulu sy'n gweithio: saith pwynt canran yn uwch na

chyfartaledd Cymru. Mae ystadegau credydau treth yn dangos bod cyfran sy'n gweithio ar gyfer Gwynedd wyth pwynt canran yn uwch na Chymru. Mae'r tebygrwydd i'n hamcangyfrif yn cael ei gefnogi gan ffynhonnell sy'n adlewyrchu enillion is Gwynedd.

Yn gryno, felly:

- Cyfran y bobl mewn tlodi yng Nghymru mewn teuluoedd sy'n gweithio: 48.8 y cant
- Cyfran y bobl mewn tlodi yng Ngwynedd mewn teuluoedd sy'n gweithio: 55.7 y cant
- Nifer y bobl mewn tlodi yng Ngwynedd mewn teuluoedd sy'n gweithio: 15,100.


## 2.2. Amrywiadau o ran tlodi mewn gwaith yng Ngwynedd

Mae'r adran hon yn edrych ar sut mae tlodi mewn gwaith yn amrywio ledled Gwynedd. Mae'n defnyddio ystadegau budd-dal tai a chredydau treth hefyd ar lefelau daearyddiaeth isel.

### Amrywiadau o ran y bobl sy'n cael credydau treth mewn gwaith

Mae ffigur 8 yn mapio cyfran yr aelwydydd sy'n cael credydau treth ym mis Awst 2015 wrth weithio, ar lefel Gwynedd. Mae'r rhain yn amrywio o 1.1 y cant i 20 y cant.

**Ffigur 8: Cyfran yr aelwydydd yng Ngwynedd sy'n cael credydau treth wrth weithio**



Ffynhonnell: Credydau treth personol: ystadegau terfynol o'r hyn sydd wedi'i ddyfarnu - data ardal fach (LSOA a Pharth Data) 2015 i 2016, CThEM; Amcangyfrif canol-blwyddyn bach o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.


Mae'r rhannau coch tywyll ar y map yn dangos y gyfran uchaf o'r aelwydydd sy'n cael credydau treth wrth weithio, ac mae sawl clwstwr o amgylch Bangor a Chaernarfon (sy'n ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf), Pwllheli ac Abermaw. Ar y cyfan, mae'r rhain yn gymysgedd o fathau o ardaloedd: yn drefol gan fwyaf, ond ag ardaloedd arfordirol ac ôl-ddiwydiannol hefyd. Mae clwstwr o risg mawr o amgylch Blaenau Ffestiniog hefyd.

Mae cyfradd y bobl sy'n cael credydau treth yn 8.2 y cant neu is yn un o bob deg Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn y sir. Ar y pen arall, mae 15.2 y cant neu fwy o bobl yn cael credydau treth yn un o bob deg ohonynt. Mae'r ardaloedd sydd â'r cyfraddau isaf o bobl sy'n cael credydau treth wrth weithio ar yr arfordir yn gyffredinol, fel arfer rhwng ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Bangor a Chaernarfon.

Mae ffigur 9 yn edrych ar nifer y teuluoedd sy'n gweithio ac sy'n cael credydau treth yn ôl y math o ardal. Er bod yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is unigol â'r

gyfran uchaf o bobl sy'n cael credydau treth yn yr ardaloedd trefol, yn yr ardaloedd gwledig y gwelir y nifer uchaf (ychydig dros 2000 o deuluoedd sy'n gweithio) a'r gyfran uchaf (13.5 y cant). Y math o ardal sydd â'r ail risg fwyaf yw trefi marchnad a phentrefi mawr ac ardaloedd arfordirol, ar 12.4 y cant. Mae'r ail nifer fwyaf o deuluoedd sy'n gweithio ac sy'n cael credydau treth mewn ardaloedd trefol, oddeutu 1,600 neu 11 y cant o'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd o'r fath.

**Ffigur 9: Nifer a chyfran y bobl sy'n cael credydau treth yn ôl ardal**



Ffynhonnell: Credydau treth personol: ystadegau terfynol o'r hyn sydd wedi'i ddyfarnu - data ardal fach (LSOA a Pharth Data) 2015 i 2016, CThEM; Amcangyfrif canol-blwyddyn bach o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu bod 31 y cant o'r rheini sy'n hawlio credydau treth wrth weithio yng Ngwynedd mewn ardaloedd gwledig, ac mae 25 y cant mewn ardaloedd trefol.


Ar lefel etholaeth, mae mwy o bobl yn hawlio credydau treth gwaith yn Nwyfor Meirionnydd ac mae cyfran uwch o deuluoedd yn cael credydau treth wrth weithio. Mae 12.5 y cant o deuluoedd, 3,380 i gyd, yn Nwyfor Meirionnydd yn y sefyllfa hon, o'i gymharu â 3,110 neu 11 y cant yn Arfon.

Mae ffigur 10 yn edrych ar ystadegau credydau treth mewn ffordd wahanol, gan gymharu nifer y teuluoedd sy'n eu hawlio ac sy'n gweithio gyda'r nifer sy'n eu hawlio ond heb fod yn gweithio. Edrychir ar hyn mewn perthynas â chyfartaledd y sir (wedi'i fynegi fel 100). Yn yr ardaloedd glas ar y map, mae'r cyfartaledd yn is na'r sir o ran

eu cyfran o gredydau treth wrth weithio, ac mae'r gyfran yn uwch na'r cyfartaledd yn yr ardaloedd coch.

Mae cyfran y teuluoedd sy'n cael credydau treth ac sy'n gweithio yn amrywio yng Ngwynedd o 53 y cant i 94 y cant. Mewn gwrthgyferbyniad â ffigur 10, lle roedd tair o'r pum prif Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn ardaloedd trefol, mae pum prif Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is wrth fesur hyn yn ardaloedd gwledig, ardaloedd arfordirol, ac yn drefi marchnad a phentrefi mawr.

**Ffigur 10: Cyfran y bobl sy'n hawlio credydau treth sy'n gweithio (Gwynedd = 100)**




Ffynhonnell: Credydau treth personol: ystadegau terfynol o'r hyn sydd wedi'i ddyfarnu - data ardal fach (LSOA a Pharth Data) 2015 i 2016, CThEM; Amcangyfrif canol-blwyddyn bach o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae ffigur 11 yn dangos yr ystadegau sy'n seiliedig ar gyfran ar gyfer y gwahanol fathau o ardaloedd yng Ngwynedd. Mae'r graff yn dangos cyfran yr holl bobl sy'n cael credydau treth ac sy'n gweithio, ac wedyn cyfran y rheini sy'n gweithio a chanddynt blant yn y teulu neu sy'n deuluoedd unig rieni.



**Ffigur 11: Cyfran y bobl sy'n hawlio credydau treth ac sy'n gweithio ac unig rieni sy'n gweithio a theuluoedd sydd â phlant**



Ffynhonnell: Credydau treth personol: ystadegau terfynol o'r hyn sydd wedi'i ddyfarnu - data ardal fach (LSOA a Pharth Data) 2015 i 2016, CThEM; Amcangyfrif canol-blwyddyn bach o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae'r gwahaniaeth mwyaf i'w weld rhwng yr ardaloedd trefol a'r ardaloedd gwledig. Mae teuluoedd sy'n cael credydau treth mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod yn gweithio, ar 85 y cant, a theuluoedd yn yr ardaloedd trefol yn llai tebygol ar 70 y cant. Yn yr ardaloedd gwledig hefyd mae'r gyfran isaf o deuluoedd sydd â phlant, sy'n hawlio credydau treth wrth weithio (75 y cant), ac yn yr ardaloedd trefol mae'r gyfran uchaf ar 85 y cant.

Mae 40 y cant o'r rheini sy'n cael credydau treth wrth weithio mewn ardaloedd trefol yn unig rieni, yr uchaf o unrhyw fath o ardal. Mewn ardaloedd gwledig, dim ond tua hanner hynny yw'r ffigur hwn, ar 21 y cant. Mae hyn, a'r gyfran isaf o deuluoedd sydd â phlant, yn awgrymu bod y boblogaeth dlawd sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig ychydig yn hŷn na'r hyn a welir yn ardaloedd mwy trefol y sir. Nid yw'r ystadegau ynghylch oed ar gael ar gyfer credydau treth ar y lefel hon, ond maent ar gael ar gyfer budd-dal tai, a bydd hyn yn cael ei drafod yn yr adran nesaf.

Mae gan Arfon gyfran uwch o bobl sy'n hawlio ac yn cael credydau treth wrth weithio ac sy'n unig rieni, 36 y cant, o'i gymharu â Dwyfor Meirionnydd ar 25 y cant. Hefyd, mae gan Arfon fwy o bobl sy'n hawlio credydau treth wrth weithio sydd â phlant (83 y

cant i 76 y cant). Mae gan Ddwyfor Meirionnydd gyfran uwch o bobl sy'n hawlio credydau treth ac sy'n gweithio (84 y cant) nag Arfon (74 y cant).


## Amrywiadau o ran y bobl sy'n cael budd-dal tai mewn gwaith

Mae'r adran hon yn defnyddio ystadegau gweinyddol ar fudd-dal tai – a dim ond tenantiaid sy'n gallu hawlio hwn – i ddilysu'r canfyddiadau o'r adran credydau treth, yn ogystal ag ychwanegu rhagor o wybodaeth ddemograffig.

Mae 23 y cant o'r rheini o oedran gweithio sy'n hawlio budd-dal tai yng Ngwynedd yn gweithio, o'i gymharu â 19 y cant yng Nghymru gyfan. Mae ffigur 12 yn edrych ar yr ystadegau hyn yn ôl categorïau ardal a'r ddwy etholaeth seneddol. Ar gyfer pob ardal, mae'n dangos cyfran y bobl o oedran gweithio sy'n hawlio budd-dal tai ac sy'n gweithio, a chyfran yr aelwydydd sy'n rhentu ac yn cael budd-dal tai wrth weithio.

Mae'r gwahaniaeth a welwyd yn yr ystadegau credydau treth rhwng yr ardaloedd trefol a'r ardaloedd gwledig yn llai amlwg ond mae dal modd ei weld. Yr ardaloedd arfordirol yw'r math o ardal sydd â'r gyfran uchaf o bobl yn hawlio ac yn gweithio, ar 29 y cant, gyda'r ardaloedd gwledig yn dilyn ar 24 y cant. Ar y cyfan, mae 11 y cant o bobl sy'n rhentu mewn ardaloedd arfordirol yn hawlio budd-dal tai wrth weithio. Ar y llaw arall, mae 22 y cant o'r bobl sy'n hawlio budd-dal tai mewn ardaloedd trefol yn gweithio, ond dim ond 7 y cant o bobl sy'n rhentu sy'n cael budd-dal tai ac yn gweithio.

**Ffigur 12: Risg a nifer y bobl sy'n cael budd-dal tai ac yn gweithio**




Ffynhonnell: Ystadegau Budd-dal Tai drwy Stat Xplore, Tachwedd 2017, Yr Adran Gwaith a Phensiynau; Amcangyfrif canol-blwyddyn bach o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae gan Arfon, fel ardal fwy trefol, gyfran is o bobl sy'n hawlio budd-dal tai ac sy'n gweithio na Dwyfor Meirionnydd (22 y cant o'i gymharu â 25 y cant), a chyfran is o bobl yn rhentu sy'n cael budd-dal tai wrth weithio (8 y cant o'i gymharu â 10 y cant). Fel y gwelwyd yn yr ystadegau ar gredydau treth, mae'n ymddangos bod gan ardaloedd mwy gwledig ran uwch a chyfran uwch o anfantais wrth weithio nag ardaloedd trefol.

Mae ffigur 13 yn dangos y bobl o oedran gweithio sy'n hawlio budd-dal tai a oedd yn gweithio yn ôl y math o deulu: yn deuluoedd unig riant, yn deulu o gwpl (gyda phlant neu heb blant), neu'n seagl heb blant. Teuluoedd unig rieni yw'r grŵp mwyaf o bobl sy'n hawlio, dros hanner ym mhob ardal. Mae hyn yn amrywio rhwng 51 y cant i 54 y cant yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd, ac yn 61 y cant mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol. Mae unig rieni yn cael eu cynrychioli'n dda, yn rhannol oherwydd bod y system nawdd cymdeithasol yn rhoi lwfans ychwanegol ar gyfer plant, ac oherwydd mai dim ond un ffynhonnell o enillion sydd. Er gwaethaf hyn, yn 2011, dim ond 16 y cant o deuluoedd yng Ngwynedd oedd yn deuluoedd unig riant, gyda 63 y cant mewn gwaith.

**Ffigur 13: Cyfran y bobl sy'n hawlio budd-dal tai ac sy'n gweithio, yn ôl y math o deulu ac ardal**



Ffynhonnell: Ystadegau Budd-dal Tai drwy Stat Xplore, Tachwedd 2017, Yr Adran Gwaith a Phensiynau; Amcangyfrif canol-blwyddyn bach o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.


O blith y mathau eraill o deuluoedd, cyplau ac oedolion seagl heb blant, mae'r rhan fwyaf o'r mathau o ardaloedd yn eithaf tebyg. Yr ardaloedd gwledig yw'r eithriad,

gyda chyfran lawer uwch o deuluoedd sy'n gyplau (44 y cant o'i gymharu â 21 i 28 y cant) a chyfran lawer is o fathau o deuluoedd ag oedolyn sengl (4 y cant o'i gymharu â 17 i 22 y cant).

Rhwng y ddwy etholaeth, mae gan Arfon gyfran ychydig yn is o bobl sy'n hawlio credydau treth wrth weithio mewn teuluoedd oedolyn sengl heb blant (16 y cant o'i gymharu â 20 y cant), a chyfran ychydig yn uwch o deuluoedd unig rieni (57 y cant o'i gymharu â 52 y cant).

Yn sgil rheolau ynghylch datgelu data, mae hyn yn golygu mai dim ond y wybodaeth am oed pobl sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai yng Ngwynedd ac yn y ddwy etholaeth sydd ar gael. Mae ffigur 14 yn dangos bod yr un gyfran yn fras o bobl o dan 34 oed a rhwng 35 a 49 oed yn gweithio ac yn hawlio budd-dal tai yng Ngwynedd, ar 38 y cant a 41 y cant o'r cyfanswm yn y drefn honno. Mae ychydig dros un rhan o bump o'r bobl sy'n hawlio dros 50 oed.

**Ffigur 14: Pobl sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai, yn ôl oedran**




Ffynhonnell: Ystadegau Budd-dal Tai drwy Stat Xplore, Tachwedd 2017, Yr Adran Gwaith a Phensiynau; Amcangyfrif canol-blwyddyn bach o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Wrth gymharu'r ddwy etholaeth, mae gan Arfon gyfran fwy o bobl iau sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai (44 y cant o'i gymharu â 30) ond mae gan Ddwyfor Meirionnydd gyfran uwch o bobl sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai yn y grŵp oedran dros 50 oed (25 y cant o'i gymharu â 19 y cant) ac yn y grŵp oedran rhwng 35 a 49 oed (45 y cant o'i gymharu â 37 y cant). O'i gymharu â Chymru gyfan, mae'r

bobl sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai yng Ngwynedd yn hŷn ar gyfartaledd: mae 60 y cant rhwng 25 a 44 oed yng Ngwynedd o'i gymharu â 66 y cant ar gyfer Cymru.

Mae ffigur 15 yn edrych ar y bobl o oedran gweithio sy'n hawlio budd-dal tai, yn ôl rhyw. Merched yw mwyafrif llethol y rheini sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai yng Ngwynedd. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys y rheini sydd mewn cyplau. Mae cyfran y merched yn amrywio o 82 y cant mewn trefi marchnad a phentrefi mawr i 92 y cant mewn ardaloedd trefol. Mae'r boblogaeth sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai yn cynnwys mwy o ddynion yn Arfon ar 16 y cant, o'i gymharu â 10 y cant yn Nwyfor Meirionnydd. Mae'n bosib bod hyn yn adlewyrchu nifer yr unig rieni sy'n hawlio budd-dal tai. Ledled Gwynedd, dynion yw 15 y cant o'r rheini o oedran gweithio sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai (o'i gymharu â 12 y cant ar gyfer Cymru).

**Ffigur 15: Pobl sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai, yn ôl rhyw ac yn ôl math o ardal**




Ffynhonnell: Ystadegau Budd-dal Tai drwy Stat Xplore, Tachwedd 2017, Yr Adran Gwaith a Phensiynau; Amcangyfrif canol-blwyddyn bach o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae ffigur 16 yn dangos cyfran y bobl o oedran gweithio sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai, ac yn byw yn y sector rhentu preifat. O ran Gwynedd gyfan, mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai yn y sector rhentu cymdeithasol, 65 y cant. Mae mwyafrif yn y sector rhentu cymdeithasol ym mhob math o ardal yn y sir, er bod 49 y cant yn y sector rhentu preifat mewn ardaloedd

arfordirol, o'i gymharu â 23 y cant mewn ardaloedd trefol. Yn unol â hyn, mae cyfran lawer mwy o bobl sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai yn y sector rhentu preifat yn Nwyfor Meirionnydd (45 y cant) nag yn Arfon (28 y cant).

**Ffigur 16: Deiliadaeth tai y bobl sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai**



Ffynhonnell: Ystadegau Budd-dal Tai drwy Stat Xplore, Tachwedd 2017, Yr Adran Gwaith a Phensiynau; Amcangyfrif canol-blwyddyn bach o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Cymariaethau ar draws ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf

Mae ffigur 17 yn edrych ar y gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf diweddaraf, y rheini a arferai fod yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, a'r rheini sydd heb fod erioed

**Ffigur 17. Dadansoddi ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf**

		Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf	Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn y gorffennol	Heb fod yn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf
<b>Cyfran yr holl aelwydydd sy'n rhentu ac yn hawlio budd-dal tai wrth weithio</b>		14%	14%	7%
<b>Cyfran yr aelwydydd sy'n cael credydau treth wrth weithio</b>		16%	15%	11%
<b>Cyfran y bobl sy'n gweithio ac yn hawlio budd- dal tai...</b>	...sy'n byw yn y sector rhentu preifat	6%	45%	40%
	...sy'n oedolion sengl heb blant	18%	19%	17%
	...sy'n unig rieni	52%	56%	55%
	...sy'n deulu cwpl	30%	25%	28%
	...sy'n ddynion	9%	23%	11%
	...sy'n ferched	91%	77%	89%
<b>Cyfran y bobl sy'n hawlio credydau treth...</b>	...sy'n gweithio	62%	82%	81%
	...sy'n unig rieni	40%	28%	30%

Mae risg y boblogaeth o dlodi mewn gwaith yn ymddangos yn uwch yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf diweddar a'r ardaloedd blaenorol nag yw yn yr ardaloedd nad ydynt erioed wedi bod yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng yr ardaloedd diweddar a'r ardaloedd blaenorol. Roedd 14 y cant o aelwydydd sy'n rhentu mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf diweddar ac ardaloedd blaenorol yn cael budd-dal tai wrth weithio, bron ddwywaith y gyfran mewn ardaloedd nad ydynt wedi bod yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae cyfran yr holl aelwydydd sy'n cael credydau treth wrth weithio yn uwch yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf diweddar (16 y cant) a'r ardaloedd blaenorol (15 y cant) nag mewn ardaloedd nad ydynt wedi bod yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (11 y cant). Nid yw'r gwahaniaeth mor amlwg ar gyfer budd-dal tai.

Mae ychydig wahaniaethau demograffig rhwng y tair ardal. Mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl sy'n hawlio credydau treth wrth weithio mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf diweddar yn unig rieni, ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr ystadegau demograffig ar gyfer budd-dal tai. Yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf blaenorol, mae cyfran y dynion yn uwch nag mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf diweddar neu ardaloedd nad ydynt wedi bod yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ar 23 y cant o'i gymharu â 9 y cant ac 11 y cant yn y drefn honno o'r ystadegau ar gyfer budd-dal tai.

Un gwahaniaeth amlwg yw bod cyfran lawer is o bobl sy'n gweithio ac yn hawlio budd-dal tai sy'n byw yn y sector rhentu preifat mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf diweddar, dim ond 6 y cant o'i gymharu â 40 i 45 y cant yn y ddau fath arall o ardaloedd. Mae anfantais wrth weithio ar gyfer pobl sy'n rhentu i'w weld lawer mwy yn y sector rhentu cymdeithasol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf diweddar.

Ar y cyfan, mae 62 y cant o aelwydydd sy'n hawlio credydau treth mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf diweddar yn gweithio. Mae hyn yn gyfran is na'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf blaenorol (82 y cant) a'r ardaloedd nad ydynt wedi bod yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (81 y cant). Fel sydd wedi'i drafod uchod, mae'r risg o dlodi mewn gwaith yn uwch mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf diweddar nag mewn ardaloedd nad ydynt wedi bod yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Ond gan fod tlodi heb fod mewn gwaith yn ymddangos yn uchel hefyd, mae'r anfantais o fod mewn gwaith yn ymddangos yn gyfran lai o'r cyfanswm. Ar y llaw arall, mae gan ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf blaenorol risg mawr a chyfran fawr o'r anfantais o fod mewn gwaith, ac mae hyn yn awgrymu bod yr anfantais o heb fod mewn gwaith yn gymharol isel.



## 2.3. Crynodeb a chasgliadau

Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sydd mewn tlodi yng Ngwynedd mewn teuluoedd sy'n gweithio. Mae lefelau cyffredinol o dlodi yn y sir yn isel i ganolig o'u cymharu â Chymru ar sail y data gweinyddol, ond mae cyfran uwch na'r cyfartaledd yn gweithio.

- Yn 2013/14, roedd tua 15,100 o bobl mewn teuluoedd sy'n gweithio mewn tlodi yng Ngwynedd, ac mae hyn yn 55.7 y cant o'r holl bobl mewn tlodi yn y sir. I Gymru gyfan, 48.8 y cant yw'r ffigur hwn. Mae'r 15,100 hyn yn 12.4 y cant o'r holl bobl yng Ngwynedd.
- Y prif ffactorau sy'n gyfrifol am y gyfran uwch o dlodi mewn gwaith sy'n berthnasol i Gymru yw'r lefelau uwch o bobl hunangyflogedig ac, i raddau llai, y lefelau uwch o rentu yng Ngwynedd.
- Ar y cyfan, mae cyfraddau uchaf o anfantais o fod mewn gwaith i'w gweld yn ardaloedd gwledig Gwynedd, er bod y cyfraddau uchaf ar gyfer ardaloedd penodol i'w gweld mewn ardaloedd trefol.
- Mae cyfran uwch o'r tlodi mewn ardaloedd gwledig yn dlodi mewn gwaith, er oherwydd y poblogaethau cymharol fach, mae'n bosib bod gan ardal wledig sy'n wynebu llawer o dlodi mewn gwaith lai o bobl yn y sefyllfa honno nag a welir mewn ardal drefol sydd ag ychydig iawn o dlodi mewn gwaith.
- Mae gwahaniaethau demograffig yng nghyfansoddiad y rheini sy'n wynebu tlodi mewn gwaith rhwng y gwahanol ardaloedd daearyddol. Mae'r gwahaniaethau mwyaf amlwg i'w gweld fel arfer rhwng yr ardaloedd gwledig a'r gweddill. Mewn ardaloedd gwledig, yn gyffredinol, mae'r bobl sy'n gweithio yn hŷn, ac mae llai o unig rieni ac oedolion sengl. Y rhain yw'r lleiaf tebygol o fod â phlant yn y teulu.

## 3. Arweiniad ar feysydd blaenoriaeth a sut mae ymateb

### 3.1. Amcanion a rôl yr awdurdod lleol

Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried yr hyn y gallai'r awdurdod lleol ei wneud i gefnogi'r rheini sy'n wynebu tlodi mewn gwaith yng Ngwynedd. Yn greiddiol i'r bennod hon mae sylwadau nifer fach o bobl leol a gafodd eu cyfweld am y problemau sy'n wynebu teuluoedd sy'n gweithio ac ar incwm isel yng Ngwynedd. Mae hyn wedi'i osod o dan bedwar is-bennawd, ac rydym wedi ychwanegu ein safbwyntiau ein hunain o ran sut gallai'r awdurdod lleol ymateb. Nid argymhellion yw'r rhain fel y cyfryw, ond man cychwyn yn hytrach ar gyfer trafodaethau, yn y cyngor ei hun a gydag eraill.

#### Amcanion

Wrth edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i gefnogi pobl sy'n wynebu tlodi mewn gwaith, mae'n hanfodol peidio â meddwl mai'r unig bethau sy'n werth eu hystyried yw'r pethau hynny sy'n caniatáu i rywun *ddianc* rhag tlodi mewn gwaith. Ar y lefel leol o leiaf, byddai hyn yn rhy gyfyngedig – am ddau reswm. Y cyntaf yw bod gwerth bob amser mewn *gwella* sefyllfa teuluoedd hyd yn oed pan fyddant yn dal yn wynebu tlodi mewn gwaith. Wrth ganolbwyntio gormod ar *ddianc*, mae perygl o esgeuluso'r pethau *bach* sy'n dal yn gallu gwneud gwahaniaeth. Nid oes raid i welliannau fod ar ffurf arian yn unig; mae mwy o amser, a mwy o hyblygrwydd o ran amser, yn werthfawr hefyd.

Yn ail, mae teuluoedd sy'n gweithio a chydag incwm isel yn gallu bod mewn sefyllfa eithaf ansicr. Gyda'r perygl iddynt golli gwaith, a'u bod ar incwm isel yn barhaol, maent mewn perygl o fod mewn sefyllfa o dlodi enbyd os na fyddant yn gallu rheoli eu dyledion neu os bydd rhywbeth annisgwyl yn digwydd fel cyfnodau o salwch difrifol. Felly, mae camau sy'n gallu atal pethau rhag gwaethygu yn berthnasol hefyd.

Rydym yn argymhell, felly, y dylai'r cyngor roi dau amcan iddo'i hun wrth edrych yr hyn y gellir ei wneud am dlodi mewn gwaith yng Ngwynedd, sef:

- Cynyddu adnoddau ariannol ac adnoddau heb fod yn ariannol y rheini sy'n wynebu tlodi mewn gwaith, boed hyn yn rhoi cyfle iddynt *ddianc* rhag tlodi mewn gwaith neu beidio.
- Diogelu'r rheini sy'n wynebu tlodi mewn gwaith rhag mynd i sefyllfa o dlodi enbyd, yn sgil dyledion sydd wedi mynd y tu hwnt i bob rheolaeth neu ansefydlogrwydd sy'n deillio o'r system nawdd cymdeithasol.

## Ffyrdd y gall awdurdod lleol ddylanwadu ar dlodi mewn gwaith

Cafodd adolygiad o gynigion polisi ar dlodi mewn gwaith ei wneud fel rhan o gefndir yr ymchwil hon. Mae'r adolygiad hwnnw'n dangos bod swmp o'r argymhellion wedi'u cyfeirio at gyflogwyr. Mae'r agenda hon yn canolbwyntio ar y gweithle ac mae'n gweld yr awdurdod lleol yn chwarae dwy rôl. Y rôl gyntaf yw gosod safon fel sefydliad angori. Yr ail rôl yw lledaenu safonau, gan gynnwys drwy ei arferion caffael, a rhoi cymorth mwy cyffredinol o ran cyflogaeth drwy ei rôl ym maes datblygu economaidd.

Ond nid y *cyflogwr* yw'r unig un sy'n gallu gwneud gwahaniaeth. Mae gweithio ychydig o oriau ychwanegol bob wythnos yn amlwg yn un ymateb uniongyrchol i dlodi mewn gwaith. Er mai'r cyflogwr yw'r unig un all gynnig yr oriau, a yw'r cyflogai mewn sefyllfa i weithio mwy pe byddai'r cyfle'n codi? Os nad yw, beth sydd yn ei atal rhag gwneud? Mae diffyg gofal plant fforddiadwy yn sicr yn un ffactor, ond nid dyma'r stori i gyd ychwaith. Nid dim ond plant sydd angen gofal; mae angen ymrwymiad rheolaidd i ofalu am berthnasau hŷn a ffrindiau hefyd. Mewn ymchwil a wnaethom ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree yn 2016, cafwyd cadarnhad o'r cysylltiad rhwng gofal anffurfiol (di-dâl) o'r math hwn a thlodi.<sup>5</sup> Nid yw'n gorfod bod yn ddewis syml rhwng gweithio am dâl a magu plant; yn hytrach, efallai mai mater o helpu pobl i allu gwneud y ddau beth ydyw. Mae cynigion i wella mynediad at wasanaethau, yn amrywio o drafnidiaeth gyhoeddus i oriau agor, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau ieuchyd, yn bwysig yma. Mae rôl yr awdurdod lleol fel caffaelwr, darparwr a chydlynedd gwasanaethau lleol yn ffordd arall y gall effeithio ar dlodi mewn gwaith.

Yn olaf, fel casglwr trethi, mae gan yr awdurdod lleol berthynas ariannol uniongyrchol â theuluoedd mewn tlodi. Fel mae'r gwaith ar dlodi enbyd yn ei ddangos, mae arferion awdurdodau lleol ynghylch casglu dyledion (gan gynnwys cydlynu â chwmnïau cyfleustodau) yn gallu bod yn hollbwysig i atal teuluoedd rhag mynd i sefyllfa o dlodi enbyd.

Yn gryno, mae o leiaf bedair ffordd y gall awdurdod lleol effeithio ar dlodi mewn gwaith, yn ei rôl fel: cyflogwr; arweinydd lleol (gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer datblygu economaidd) a phennwr safonau cyflogaeth; darparwr, caffaelwr a chydlynedd gwasanaethau lleol; casglwr trethi lleol a rheolwr dyledion.

### 3.2. Problemau sy'n wynebu teuluoedd sy'n gweithio ac ar incwm isel yng Ngwynedd

Yn yr adran hon, byddwn yn adrodd ar beth ddywedodd pump o bobl leol wrthym ni mewn cyfweiliad am y problemau sy'n wynebu teuluoedd sy'n gweithio ac ar incwm

<sup>5</sup> Mae'r adroddiadau a archwiliwyd yn cael eu cynnwys yn y llyfryddiaeth.

isel yng Ngwynedd. Fel y nodwyd uchod, oherwydd mai nifer fach o gyfweiliadau a wnaethpwyd, awgrymiadau'n unig a gynigir o'r canfyddiadau. Ar ôl nodi'r pwyntiau, rydym yn cynnig arsylwadau ar feysydd blaenoriaeth posib i'r awdurdod lleol.

## Natur dymhorol, sgiliau, cyflog isel a dyledion

Roedd natur dymhorol gwaith yng Ngwynedd yn thema a gododd sawl tro yn y cyfweiliadau. Er bod yr haf yn gyfle i rai weithio cynifer o oriau ag y bo modd i'w cynnal drwy'r tymor tawel, roedd cyflogaeth dymhorol yn her i eraill.

Yn yr ardaloedd lle mae mwy o gyflogaeth dymhorol, roedd hi'n anodd dod o hyd i swyddi amser llawn: roedd contractau sy'n cynnig 16 awr yr wythnos yn gyfran fawr o'r swyddi a oedd yn cael eu cynnig. Ac eto, roedd cyflogaeth wedi dweud eu bod yn teimlo y byddai gweithio mwy na 16 awr yn gallu effeithio'n negyddol ar eu budd-daliadau wrth weithio, gan gyfyngu ar y fantais ariannol o weithio mwy o oriau, neu greu problemau pe byddai'r gwaith yn dod i ben. Roedd cyflogwyr yn gweld recriwtio'n lleol ar gyfer yr haf yn her hefyd, yn enwedig pan oedd angen sgiliau penodol, fel cymwysterau ym maes arlwyo.

Y farn oedd bod gwaith dros yr haf yn mynd yn fwy a mwy ansefydlog. Roedd contractau dim oriau, contractau tymor byr a hunangyflogaeth ffug yn golygu nad oedd rhai gweithwyr yn gallu rhagweld eu henillion yn bendant. Mae'r pryder mai dim ond ar gyfer yr haf mae'r gwaith yn gallu annog pobl i aros yn y system fudd-daliadau (drwy gyfyngu nifer yr oriau gwaith) i sicrhau bod yr arian dros y tymor tawel yn parhau.

Gallai fod prinder tai yn agos at waith dros yr haf oherwydd ei fod mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'r llety gwyliau.

Nododd y bobl a gafodd eu cyfweled fod toreth o swyddi ar gael sy'n talu'r isafswm cyflog, yn ogystal â diffyg cyfleoedd i symud mewn modd ystyrlon o'r gyfradd fesul awr hon. Roedd hyn yn arbennig o wir i fusnesau bach lle nad oedd cyfle o fewn eu strwythur cyflogi yn aml iawn i gynnig 'ysgol' i ddringo i gyflogau uwch.

Codwyd nifer o bwyntiau ynghylch cyfateb preswylwyr lleol a'u sgiliau. Un grŵp penodol a oedd yn bryder oedd y rheini a oedd wedi cychwyn ar eu gyrfa ond wedi cymryd egwyl wedyn, er enghraifft, i fagu plant. Gallai mynd yn ôl i weithio, yn enwedig rolau lle byddai modd gweithio oriau hirach neu gael cyflog digonol, fod yn brofiad anodd i'r grŵp hwn oherwydd y gystadleuaeth gyda'r rheini na wnaeth gymryd amser i ffwrdd o'u gwaith cyflogedig ac a oedd wedi cael y cyfle i ddatblygu sgiliau fel llythrennedd digidol.

Mae dibynnu ar waith tymhorol yn gallu arwain at gylch o ddyledion yn cronni yn y tymor tawel, gyda'r bwriad o ad-dalu ôl-ddyledion pan fydd pobl yn gallu gweithio mwy o oriau a chynyddu eu hincwm.

Soniodd y sawl a gafodd eu cyfweld am weithwyr a oedd wedi eu cael eu hunain mewn sefyllfaoedd lle roeddent mewn dyled anffurfiol i'w teulu a'u ffrindiau, ond hefyd â dyled 'blaenoriaeth' fel ôl-ddyledion treth gyngor, cyfleustodau a rhent. Mae penderfynu pa ddyledion i'w had-dalu'n gyntaf yn gallu arwain at ganlyniadau difrifol. Mae methu ag ad-dalu dyled i deulu a ffrindiau yn gallu arwain at ganlyniadau cymdeithasol ac emosiynol; nid yw'r ffaith nad ydynt yn fasnachol yn golygu eu bod yn llai pwysig. Gallai peidio â thalu dyled fel rhent neu dreth gyngor arwain at achos o droi rhywun allan neu feiliaid yn hawlio car yn erbyn y ddyled. Gallai'r cyfan amharu'n ddifrifol ar allu rhywun i barhau yn ei waith. Pwysleisiwyd pa mor bwysig oedd cael cyngor am ddyledion.

## Trafnidiaeth, gofal plant a gwasanaethau cyhoeddus

Nodwyd bod trafndiaeth yn gryn rwystr rhag gweithio mwy o oriau neu hyd yn oed gael gwaith o gwbl. Mae sawl ffactor yn rhoi pwysau ar allu pobl i gyrraedd gwaith: y pellteroedd mawr mae'n rhaid i rai gweithwyr eu teithio oherwydd natur wledig Gwynedd; mwy o gyfleoedd mewn trefi mawr; a'r angen i gyrraedd gwasanaethau eraill hefyd fel gofal plant.

Roedd yr ymarferoldeb o beidio â chael car neu o rannu car rhwng y teulu yn golygu bod yn rhaid i rai gweithwyr ddibynnu ar ddulliau trafndiaeth eraill i gyrraedd gwaith. Nodwyd bod y rhwydwaith bysiau yn cyfyngu ar allu pobl i gael gwaith, gan gynnwys gwasanaeth anaml, oriau gweithredu byr (yn berthnasol i shifftiau gwaith hir) a chost (e.e. pe byddai angen mynd ar ddau fws gyda darparwyr gwahanol i gwblhau'r daith i'r gwaith).

Soniodd cyflogwyr ym maes lletygarwch pa mor bwysig oedd darparu llety ar y safle i staff a fyddai'n teithio siwrneiau hir i'r gwaith, naill ai oherwydd lleoliad y swydd, neu oherwydd bod nifer y gweithwyr sy'n angenrheidiol yn golygu bod yn rhaid i'r cyflogwr recriwtio o ddalgylch mawr.

Roedd y broblem o ran trafndiaeth yn codi hefyd wrth geisio cyrraedd gwasanaethau cefnogi fel darparwr gofal plant neu'r Ganolfan Waith, nid dim ond i fynd a dod o'r gwaith.

Roedd y sawl a gafodd eu cyfweld yn croesawu'r cynllun peilot i gynnig gofal plant yn ddi-dâl i blant tair a phedair blwydd oed, sydd wrthi'n cael ei dreialu yng Ngwynedd. Ond roedd yr ymarferoldeb o gyrraedd darparwr gofal plant, ac wedyn mynd i'r gwaith, a gwneud yr un fath ar ddiwedd diwrnod gwaith, yn gryn her i bobl

oedd am gynyddu eu horiau, yn enwedig y rheini heb gar at eu defnydd. Byddai mwy o gyfle o lawer yn y prif drefi i ddefnyddio gofal plant sy'n nes at adref.

Dywedodd un o'r bobl a gafodd ei gyfweld ei fod yn gwybod am rywun a oedd wedi dewis peidio cymryd eiddo gan gymdeithas dai oherwydd ei fod yn bell o'r Ganolfan Waith roedd yn rhaid i'r unigolyn hwnnw fynd iddi.

### 3.3. Awgrymiadau ar gyfer blaenoriaethau'r awdurdod lleol

Mae'r deunydd polisi ar dlodi mewn gwaith sydd wedi'i ddarllen ar gyfer yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar gamau gweithredu'r cyflogwr ynghylch cyflog, cynnydd a diogelu gwaith.<sup>6</sup> Yn fras, mae'n argymhell y dylid codi'r cyflog fesul awr i lefel Cyflog Byw 'Go iawn' (£8.75) fan leiaf, a delir gan sefydliadau angori lleol a'i hyrwyddo gan awdurdodau lleol ymysg busnesau. Dylid ymestyn cyfleoedd i gael hyfforddiant a datblygiad gyrfa i bob cyflogai, gan gynnwys y rheini sydd mewn rolau sgiliau isel neu oriau bach. Dylid lleihau faint o gontractau byr neu gontractau dim oriau a ddefnyddir a rhoi cyhoeddusrwydd i hawl cyflogeion i gael tâl salwch a tâl gwyliau.

O'r hyn rydym yn ei ddeall am amodau cyflogaeth leol, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw hyn i gyd yn iawn i Wynedd. Er enghraifft, mae'r cyfle i ddatblygu gyrfa yn brin a hyd yn oed pan fydd cyfle, mae'n bosib y bydd y cyfrifoldeb ychwanegol yn rhy fawr wrth ei gymharu â'r cyflog ychwanegol sy'n cael ei gynnig. Efallai y byddai'n well gan gyflogeion sy'n wynebu teithiau anodd ac sydd â chyfrifoldebau y tu allan i'r gwaith, gael perthynas sy'n hyblyg iddynt hwy a'u cyflogwr – a bod cyflogwr yn cefnogi unrhyw gais gan gyflogai i gael hyblygrwydd ynghylch oriau – yn hytrach na bod yn anhyblyg. Byddai croeso i godiad cyflog, os yw popeth arall yn gyfartal, ond gan fod talu'r Cyflog Byw Go iawn yn wirfoddol, mae angen datblygu a hyrwyddo'r dadleuon yn lleol er mwyn annog cyflogwyr yng Ngwynedd i wneud hynny.

Ar yr un pryd, fodd bynnag, nid oes rheswm dros feddwl na ellid newid arferion cyflogi yng Ngwynedd. Mae cyflogwyr hefyd yn wynebu heriau. Mae natur dymhorol y gwaith yn peri problemau iddynt hwy yn ogystal â chyflogeion. Mae'n gallu bod yn anodd llenwi swyddi sy'n gofyn am gymwysterau. Mae'r ffaith bod nifer o swyddi 16 awr yn adlewyrchu, yn rhannol, yr hyn mae cyflogeion wedi'i ddewis – nid rhywbeth sydd wedi'i orfodi gan gyflogwyr yn unig yw hyn.

Yn erbyn y cefndir hwn, rydym wedi nodi pum maes lle gallai'r awdurdod lleol weithredu, naill ai'n uniongyrchol neu mewn rôl arweinyddiaeth, i geisio gwella sefyllfa teuluoedd sy'n gweithio ac ar incwm isel yng Ngwynedd.

<sup>6</sup> Mae'r adroddiadau a archwiliwyd yn cael eu cynnwys yn y llyfryddiaeth.

1. ***Deall pam mae contractau 16-awr mor gyffredin yng Ngwynedd.*** Pe byddai pobl sy'n gweithio 16 awr yr wythnos yn gallu gweithio ychydig yn fwy bob diwrnod, byddai'r fantais ariannol am yr ymdrech gyfan yn sylweddol. Byddai oriau gwaith hirach yn yr haf – 'goramser tymhorol' – yn helpu cyflogwyr hefyd. Rydym wedi dod ar draws y syniad o gyfyngiad wythnosol o 16 awr o'r blaen (mewn gwaith ymchwil ar gyfer y Comisiwn Cyflogau Isel yn 2015, gwelsom 'yn benodol, famau sy'n gweithio yn dweud y byddai'n well ganddynt weithio 16 awr a dim mwy').<sup>7</sup> Ac eto, ar wahân i golli hawliau i gael cymorth ar gyfer llog ar forgais (hen fudd-dal sydd ar fin dod i ben beth bynnag), ni allwn weld unrhyw reswm technegol dros hyn. Byddai canfod pam mae cyflogeion yng Ngwynedd yn credu hyn – os ydynt wir yn credu hynny – yn gam gyntaf gyda llawer o botensial i fod yn bositif. Gallai hyn fod yn rhan o ymdrech fwy cyffredinol i annog cyflogwyr i drafod oriau gwaith gorau a phatrymau shifft gyda'u cyflogeion.
2. ***Yn unol ag ymrwymiad Gwynedd i greu swyddi gwerth uchel, canolbwyntio ar y sgiliau arbenigol mae cyflogwyr tymhorol yn ei chael yn anodd llenwi'r swyddi hyn.*** Hyd yn oed os rhoddir yr isafswm cyflog i'r rhan fwyaf o'r gwaith tymhorol, mae'r swyddi sydd â mwy o sgil fel arlwy'o'n cael eu talu'n well. Mae cysylltiadau da rhwng ysgolion cholegau a chyflogwyr lleol yn rhoi cyfle i bobl ifanc, yn enwedig y rheini sydd am aros yng Ngwynedd, i ddeall pa sgiliau sydd fwyaf eu hangen. Byddai llif o bobl gymwys i lenwi swyddi mwy arbenigol yn fuddiol i gyflogwyr a gweithwyr sy'n chwilio am waith tymor hir.
3. ***Canolbwyntio ar roi sgiliau newydd i'r rheini sy'n dychwelyd i weithio ar ôl cyfnod o'r gwaith.*** Mae'r grŵp hwn, fel arfer merched sydd heb fod yn y farchnad lafur ers sbel er mwyn magu eu plant, yn allweddol i ddelio â thlodi mewn gwaith sy'n effeithio ar bobl yn eu 40au a'u 50au. Mae'n hawdd eu hadnabod a'u cyrraedd drwy ysgolion eu plant. Yn ôl yr ystadegau ar weithluoedd, mae'r grŵp yma hefyd yn barod i uwchsgilio (lefelau cymwysterau yn codi ymhlith merched yn ystod eu 30au).
4. ***Adolygu pa mor hwylus yw cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a ddefnyddir gan deuluoedd sy'n gweithio ac ar incwm isel.*** Mae rolau a chyfrifoldebau y tu allan i waith cyflogedig – yn bennaf yn ymwneud â bywyd teulu ac yn amlach na pheidio yn cael eu cyflawni gan ferched – yn cyfyngu ar yr amser ar gyfer gwaith cyflogedig. Mae pa mor rhwydd y gellir eu gwneud yn dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus: iechyd, gofal (ar gyfer plant ac oedolion), yr ysgol, trafndiaeth gyhoeddus ac ati. Mae mwyafrif o'r hyn y gellir ei wneud yn fater o fanylu (ac felly mae hyn y tu hwnt i'r gwaith ymchwil yma), ond bydd yn cynnwys oriau gweithredu/agor, agosrwydd (at adref a gwaith),

<sup>7</sup> Bushe *et al* (2015).

pa mor rhwydd yw gwneud neu newid apwyntiadau, pa mor addas yw gwasanaethau digidol ac ati. Y pwynt pwysig yw bod gwella mynediad at wasanaethau yn cyfrannu'n gadarnhaol at dlodi mewn gwaith.

**5. Hyrwyddo cyngor am ddyledion ac adolygu polisiau ar gasglu dyledion.**

Mae cyngor amserol am ddyledion yn hanfodol. Mae ymchwil ar dlodi enbyd yn dangos bod dyledion fel arfer yn ddyledus i gyrrff fel y cyngor, cymdeithasau tai, yr Adran Gwaith a Phensiynau a chwmnïau cyfleustodau. Mae rhannu gwybodaeth yn eu mysg yn gallu llywio'r arferion casglu dyledion y bydd teuluoedd ar incwm isel yn gallu eu fforddio. Dywedodd sawl un a gafodd ei gyfweld fod Cyngor Gwynedd yn gwneud hyn yn dda. Os oes lle i arwain eraill, mae cyfnod ad-dalu hirach yn hanfodol, gyda hyblygrwydd i adlewyrchu'r ffaith bod incwm yn dymhorol. Mae Cynllun Trefniant Dyledion yr Alban yn rhewi llog, ffioedd a chosbau am chwe wythnos, ac mae hyn yn fodel.

A yw tlodi mewn gwaith mor anghyfartal ar draws y sir ac yn ddigon i nodi lleoliadau penodol fel blaenoriaethau gofodol? Ar sail y dystiolaeth yn ffigurau 9 a 12, nid ydym yn meddwl ei fod. Yn yr achos cyntaf, mae cyfran y boblogaeth sy'n cael credydau treth wrth weithio yn amrywio rhwng 10 y cant yn yr hen ardaloedd diwydiannol ac 13 y cant mewn ardaloedd gwledig. Yn yr ail achos, mae cyfran yr aelwydydd sy'n rhentu yn cael budd-dal tai wrth weithio yn amrywio o saith y cant mewn ardaloedd trefol i 11 y cant yn yr hen ardaloedd diwydiannol. Nid yw'r gwahaniaeth yn y naill achos yn ddigon mawr i ganolbwyntio ar unrhyw ardal yn benodol ac eithrio ardaloedd eraill. Ond mae'n werth cofio'r gwrthgyferbyniad rhwng:

- yr ardaloedd lleol bach – cymysgedd o ardaloedd ôl-ddiwydiannol, trefol ac arfordirol – gyda lefelau uchel o bobl yn cael credydau treth (ffigur 8) y gellid eu galw'n 'fannau problemus' tlodi mewn gwaith; a
- nifer uchel – a chyfran gymharol uchel – y teuluoedd sy'n cael credydau treth wrth weithio mewn ardaloedd gwledig (ffigur 9), sy'n awgrymu mai dyma'r ardaloedd sydd â'r broblem 'cefndir' fwyaf.

Mae'r pum blaenoriaeth a awgrymir ar gyfer yr awdurdod lleol yn berthnasol ledled y sir. Yn aml iawn, byddant yn ategu ei gilydd (e.e. ail-sgilio gweithwyr sy'n dychwelyd a mynediad). Mae ymgysylltiad merched â'r farchnad lafur yn ganolog i'r rhan fwyaf ohonynt. Os yw'n fuddiol mapio blaenoriaethau i'r gwahanol fathau o ardaloedd yng Ngwynedd, dyma un posibilrwydd:

- Mae blaenoriaeth 4 (mynediad) fwyaf perthnasol i ardaloedd gwledig, ac ardaloedd arfordirol fwy na thebyg hefyd.



- Efallai y bydd blaenoriaeth 5 (casglu a chyngor am ddyledion) fwyaf pwysig yn yr ardaloedd trefol a'r ardaloedd ôl-ddiwydiannol gyda nifer uchel yn y sector rhentu preifat.
- Mae blaenoriaeth 2 (hyfforddiant ar gyfer y swyddi tymhorol â sgiliau uwch) wedi'i hanelu at weithwyr ifanc a phobl ifanc sy'n gadael ysgol. Mae'n flaenoriaeth fwyaf priodol i ardaloedd ôl-ddiwydiannol a threfi marchnad.
- Mae blaenoriaeth 3 (ail-sgilio'r rheini sy'n dychwelyd i weithio ar ôl cyfnod i ffwrdd o'r gwaith) yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol i ardaloedd ôl-ddiwydiannol ac ardaloedd gwledig.
- Mae'n bosib y byddai'n haws edrych yn ymarferol ar flaenoriaeth 1 (pam dim ond 16 awr?) yn y trefi marchnad, gyda'r effaith fwyaf yn yr ardaloedd arfordirol gyda'u gwaith tymhorol.

### 3.4. Priodweddau ac achosion o dlodi mewn gwaith yng Ngwynedd

Fel ffordd o grynhoi, rydym wedi gosod manylion pedwar persona astudiaeth achos sy'n dangos rhai o'r enghreifftiau o dlodi mewn gwaith sydd yng Ngwynedd. Ar sail y dadansoddiadau ym mhennod 2, rydym wedi nodi un i bedwar o'r pum math o ardal leol. Bydd enghreifftiau o bob achos i'w gweld ym mhob man, ond mae'r dosbarthiad yn adlewyrchu'r farn (ar sail ffigurau 11 ac 13) ynghylch ymhle mae pob achos fwyaf nodweddiadol. Dyma'r pedwar:<sup>8</sup>

- Dynes sengl heb blant dibynnol, yn gweithio'n rhan amser ac yn byw mewn llety rhent preifat (wedi'i nodi o dan Arfordirol)
- Cwpl, y ddau'n gweithio'n rhan amser, heb blant dibynnol, yn byw mewn tŷ pâr sy'n eiddo iddynt gyda morgais (wedi'i nodi o dan Trefol)
- Cwpl, un yn gweithio'n llawn amser, un ddim yn gweithio, gyda dau o blant dibynnol, yn byw mewn tŷ pâr sy'n eiddo iddynt gyda morgais (wedi'i nodi o dan Gwledig)
- Mam ar ei phen ei hun, yn gweithio'n rhan amser, gydag un plentyn dibynnol, ac yn byw mewn llety rhent preifat (wedi'i nodi o dan Ôl-ddiwydiannol)

#### Arfordirol

Mae Nia yn ddynes sengl sy'n byw yn Abererch. Mae hi'n gweithio'n rhan-amser 24 awr yr wythnos mewn swydd lletygarwch ym Mhwillheli ac mae'n cael yr isafswm cyflog ar gyfer pobl dros 25 oed, sef £7.83. Mae hi hefyd yn rhoi gofal anffurfiol di-dâl

<sup>8</sup> Mae rhagdybiaethau mwy manwl y tu ôl i'r achosion hyn, e.e. ynghylch costau perchen ar gartrefi yng Ngwynedd yn ogystal â rhesymau ynghylch pam mae'r oriau gwaith fel y maent.

i'w thad bob dydd, sy'n byw taith bws i ffwrdd yng Nghricieth. Mae hyn yn cyfyngu ar nifer yr oriau am dâl y gall hi eu gweithio

Mae hi'n byw mewn fflat un ystafell, wedi'i rentu gan landlord preifat am £76 yr wythnos. Mae'n talu £18 yr wythnos o dreth gyngor a £8.50 am ddŵr. Mae'n cael £3.55 o fudd-dal tai i'w helpu gyda'r rhent ond ddim yn cael dim budd-daliadau eraill.

Mae hyn yn golygu mai incwm wythnosol Nia, ar ôl costau tai, yw £97. Y ffin tlodi ar gyfer oedolyn sengl heb blant dibynnol yw £144 yr wythnos – mae Nia yn byw mewn tlodi mewn gwaith. Gyda'r cyfrifoldebau gofalu sydd ganddi a'i gwaith, byddai Nia yn elwa o gael gwell cludiant.

### Trefol

Mae Dylan a Catrin yn gwpl sy'n byw yng Nghaernarfon, ac nid oes ganddynt blant. Mae Catrin yn gweithio 25 awr yr wythnos ac yn cael tâl o £7.83 mewn swydd barhaol. Mae Dylan yn gweithio 10 awr yr wythnos dros y gaeaf, hefyd ar £7.83. Yn yr haf, mae ei oriau'n cynyddu i 40 awr yr wythnos. Mae hyn yn golygu bod eu hincwm yn amrywio drwy'r flwyddyn. Yn y gaeaf, mae eu henillion gyda'i gilydd yn £274 yr wythnos, ond yn yr haf mae hyn yn codi i dros £500.

Gyda'i gilydd mae ganddynt forgais ar eu tŷ pâr. Mae eu taliadau llog yn £33 yr wythnos, y dreth gyngor yn £27 a'r costau dŵr yn £8.50. Oherwydd eu bod yn berchen ar dŷ, maent hefyd yn talu £10 yr wythnos o yswiriant adeiladau. Nid ydynt yn cael dim taliadau nawdd cymdeithasol.

Dros y gaeaf, pan fydd Dylan yn gweithio oriau byrrach, eu hincwm gyda'i gilydd ar ôl costau tai yw £209. Maent yn wynebu tlodi mewn gwaith oherwydd mai £248 yw'r trothwy tlodi ar gyfer eu math o aelwyd.

Pan fydd Dylan yn gweithio oriau hirach dros yr haf, mae eu hincwm yn fwy na £100 yr wythnos dros y ffin tlodi. Ond gan ei fod yn ceisio ad-dalu ei chwaer hefyd am yr arian y rhoddodd hi fenthyg iddo er mwyn prynu car i fynd i'w waith, nid yw eu safon byw fawr uwch yn ystod yr haf nag y mae yn y gaeaf. Byddai Dylan a Catrin yn elwa o gael cyngor am ddyledion.

### Gwledig

Mae Sion a Gwen yn gwpl a chanddynt ddau o blant dibynnol ac maent yn byw yn Llandderfel. Mae Sion yn gweithio 30 awr yr wythnos am £7.83 yr awr. Nid yw Gwen yn gweithio ar hyn o bryd, ond pan fydd ei merch ieuengaf (sy'n 10 oed) yn mynd i'r ysgol uwchradd, mae'n gobeithio mynd yn ôl i waith cyflogedig. Am y tro, enillion eu haelwyd yw £235 yr wythnos.

Mae Sion a Gwen yn byw yn eu tŷ sy'n eiddo iddynt ac mae ganddynt forgais. Maent yn talu £51 yr wythnos o log ar y morgais, £27 am dreth gyngor a £8.50 ar gyfer

trethi dŵr. Maent hefyd yn talu £10 yr wythnos o yswiriant adeiladau. Fel teulu, maent yn cael £163 mewn credydau treth ac yn cael £5 oddi ar eu bil treth cyngor.

Eu hincwm, gyda'i gilydd, ar ôl tynnu costau tai, yw £347 – union ar y ffin tlodi. Wrth i Gwen ddychwelyd i weithio, dylai hyn eu helpu i symud o'u tlodi mewn gwaith, ond gan nad yw hi wedi gweithio ers dros 10 mlynedd, mae hi'n meddwl nad oes llawer o obaith iddi. Mae Gwen yn awyddus i ddiweddarau ei sgiliau i roi'r hyder iddi ddod o hyd i waith.

### Ôl-ddiwydiannol

Mae Siân yn byw yn Nhal-y-sarn gyda'i mab, Morgan. Mae'n gweithio 12 awr yr wythnos am yr isafswm cyflog ar gyfer pobl dros 25 oed sef £7.83. Ei chyflog bob wythnos yw £94. Gan fod ei mab mewn meithrinfa a bod angen iddi ddal y bws i'r gwaith, mae'r shifftiau y gall eu gweithio yn gyfyngedig. Mae'n teithio i Gaernarfon bob dydd ar ôl danfon y mab, ac yn gadael am 1pm i fod yn ôl mewn pryd i'w godi.

Mae'n rhentu'n breifat ac yn talu £90 bob wythnos. Mae ei threth gyngor yn £24 a'i bil dŵr yn £8.50.

Mae Siân yn cael £64 mewn credydau treth ac yn cael £24 o Ostyngiad Treth Gyngor, sy'n golygu nad yw hi, i bob pwrpas, yn talu treth gyngor. Mae hi hefyd yn cael £90 yr wythnos o fudd-dal tai

Ei hincwm ar ôl tynnu'r costau tai yw £179. Y ffin tlodi ar gyfer rhiant sengl ag un plentyn yw £193, felly mae Siân a'i phlentyn yn wynebu tlodi mewn gwaith. Mae Siân yn gwybod bod swyddi sy'n talu'n well ar gael yn yr haf i'r rheini sydd â'r sgiliau priodol. Pan fydd Morgan yn mynd i'r ysgol, mae hi'n awyddus i wneud cais am un o'r swyddi hynny – ond mae angen cymhwyster cydnabyddedig arni i wneud hynny.

## Llyfryddiaeth

### Cynigion polisi

Taylor, M. (2017) *Good Work: The Taylor Review of Modern Working Practices*.

Sefydliad Bevan (2016a) *Fair pay for Merthyr Tydfil: action plan for the Living Wage*. Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan (2016b) *How economic growth can reduce poverty in Wales: What works and what should be done*. Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan (2017) *Cyflwyniad i Ymchwiliad Llywodraeth Cymru ar dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel*

Cyngor ar Bopeth Cymru 2017) *Cyflwyniad i Ymchwiliad Llywodraeth Cymru ar dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel*.

Comisiwn Fairer Fife (2015) *Fairness Matters*. Fife: Fairer Fife

Green, A. et al (2017) *Harnessing Growth Sectors for Poverty Reduction: The Role of Policy*. Caerdydd: PPIW

Cyngor Gwynedd (2017a) *Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2024*. Caernarfon: Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd (2017) *Cyflwyniad i Ymchwiliad Llywodraeth Cymru ar dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel* Caernarfon: Cyngor Gwynedd

Hick, R. a Lanau, A. (2017) *In-work poverty in the UK: Problem, policy analysis and platform for action*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd

Sefydliad Joseph Rowntree (2016a) *UK Poverty: Causes, costs and Solutions*. Caerefrog: JRF

Sefydliad Joseph Rowntree (2016b) *We can solve poverty in the UK*. Caerefrog: JRF

Sefydliad Joseph Rowntree (2017) *Cyflwyniad i Ymchwiliad Llywodraeth Cymru ar dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel* Caerefrog: JRF

Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru 2017) *Cyflwyniad i Ymchwiliad Llywodraeth Cymru ar dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel*. Sefydliad Dysgu a Gwaith

NHS Highland (2013) *Welfare Reform Mitigation Action Plan*

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (2018) *A Growth Deal for North Wales*

Oxfam (2017) *Cyflwyniad i Ymchwiliad Llywodraeth Cymru ar dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel*. Oxfam

Ray, K. et al (2010) *Better off working? Work, poverty and benefit cycling* Caerfrog: JRF

Ymddiriedolaeth Trussell (2017) *Cyflwyniad i Ymchwiliad Llywodraeth Cymru ar dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel*  
Ymddiriedolaeth Trussell

Llywodraeth Cymru (2017) *Ffyniant i Bawb: Cynllun Cyflogadwyedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

### **Llenyddiaeth ar dlodi mewn gwaith**

Barker et al 2018 (2018) *Preventing destitution: Policy and Practice in the UK*. Caerfrog: JRF

Barnard, H. et al (2017) *UK Poverty 2017*. Caerfrog: JRF

Bushe, S. et al (2015) *The minimum wage, taxes, and benefits*. Llundain: Y Comisiwn Cyflogau Isel

Hardy, G. a Lane, J. (2017) *Thin Ice: the cost of financial insecurity*. Llundain: Cyngor ar Bopeth

Hick, R. a Lanau, A. (2017) *In-work poverty in the UK: Problem, policy analysis and platform for action*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd

Marx, I. a Nolan, B. (2012) *In-Work Poverty*. Papur Trafod Gini 51: Growing Inequalities' Impacts

McKnight, A. et al (2016) *Low pay and in-work poverty: Preventative measures and preventative approaches*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.